# Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

# Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol 2025 - 2029

Arfarniad o Gynaliadwyedd (yn ymgorffori
Asesiad Amgylcheddol Strategol)

Adroddiad Cychwynnol ar Arfarniad o Gynaliadwyedd: Atodiad A – Adolygiad o Gynlluniau, Polisïau a Rhaglenni Perthnasol

Mehefin 2024

AWDURDOD PARC CENEDLAETOL ARFORDIR
PENFRO

***Adolygiad o Gynlluniau, Polisïau a Rhaglenni Perthnasol***

Mae llawer o'r polisïau, cynlluniau a rhaglenni (PPP) lefel Ryngwladol y cyfeirir atynt yn yr Adolygiad hwn o Gynlluniau, Polisïau a Rhaglenni wedi'i gweithredu mewn polisïau, cynlluniau neu raglenni Cenedlaethol neu ranbarthol. Felly mae mwy o fanylion ar sut y bydd PPP yn dylanwadu ar Gynlluniau'r Parc Cenedlaethol wedi'u cynnwys yn y cyfeiriadau at Gynlluniau Cenedlaethol a Rhanbarthol. Mae'r PPPs Rhyngwladol wedi'u cynnwys yma er cyflawnder ac i roi gwybodaeth fynediad ar sut i hael gafael ar y dogfennau.

**Rhyngwladol**

| Cynllun, Polisi neu Raglen |
|---|
| **Agenda 21 Adran Materion Economaidd a Chymdeithasol y Cenhedloedd Unedig 1992** **(**https://sdgs.un.org/sites/default/files/publications/Agenda21.pdf**)** |
| **Datganiad Rio ar yr Amgylchedd a Datblygu UNEP 1992**<br><br>**(https://www.un.org/en/development/desa/population/migration/generalassembly/docs/globalcompact/A_CONF.151_26_Vol.I_Declaration.pdf)** |
| **Adroddiad Uwchgynhadledd y Byd ar Ddatblygu Cynaliadwy, Y Cenhedloedd Unedig (2002)**<br><br>**(**Microsoft Word - UND_GEN_N0263693_DOCU_R**)** |
| **Confensiwn Fframwaith y Cenhedloedd Unedig ar Newid yn yr Hinsawdd (COP 27)** (Confensiwn Newid yn yr Hinsawdd Sharm el-Sheikh - Tachwedd 2022 \| UNFCCC) |
| **Protocol Kyoto y Cenhedloedd Unedig 1997**) (https://unfccc.int/reFfynhonnell/docs/convkp/kpeng.pdf)) |
| **Y Confensiwn ar Rywogaethau Mudol UNEP 1979** (http://www.cms.int/) |
| **Y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol UNEP 1992** (l)(Y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol (cbd.int)) |
| **Confensiwn Ramsar ar Wlyptiroedd UNESCO 1971** (http://www.ramsar.org/) |
| **Confensiwn Aarhus Comisiwn Economaidd Ewrop, y Cenhedloedd Unedig 1998** (http://ec.europa.eu/environment/aarhus/) |

| |
|---|
| **Cynhadledd y Cenhedloedd Unedig ar Ddatblygu Cynaliadwy, RIO+20 (**Cynhadledd y Cenhedloedd Unedig ar Ddatblygu Cynaliadwy, Rio+20 .:. Platfform Gwybodaeth Datblygu Cynaliadwy ) |
| **Fframwaith Sendai ar gyfer Lleihau Risg Trychinebau (2015-2030)**<br>**(**Fframwaith Sendai ar gyfer Lleihau Risg Trychinebau 2015-2030 \| Yr Adran Materion Economaidd a Chymdeithasol (un.org)) |
| **Agenda Gweithredu Addis Ababa ar Gyllido Datblygu (2015)**<br>**(**Gweithredu Agenda Gweithredu Addis Ababa: Dilyniant Fforwm ECOSOC 2017 ar Gyllido Datblygu \| Yr Adran Materion Economaidd a Chymdeithasol (un.org)) |
| **Agenda 2030 ar gyfer Datblygu Cynaliadwy**<br>(Trawsnewid ein byd: Agenda 2030 ar gyfer Datblygu Cynaliadwy \| Yr Adran Materion Economaidd a Chymdeithasol (un.org)) |
| **Cytundeb Paris (2015)**<br>(Cytundeb Paris \| Yr Adran Materion Economaidd a Chymdeithasol (un.org)) |
| **Cyfarwyddeb UE 2009/147/EC (ar Gadwraeth Adar Gwyllt, a adwaenir hefyd fel 'Y Gyfarwyddeb Adar') Cyngor y Cymunedau Ewropeaidd 30 Tachwedd 2009, fel y'i diwygiwyd gan Reoliad (EU) 2019/1010, Mehefin 5 2019**<br>(http://ec.europa.eu/environment/nature/legislation/birdsdirective/index_en.htm) |
| **Nodiadau:** Mae'r Gyfarwyddeb yn rhoi fframwaith ar gyfer cadwraeth a rheolaeth adar gwyllt yn Ewrop, a sut mae pobl yn rhyngweithio â hwy. Mae'n cyflwyno amcanion cyffredinol ar gyfer ystod eang o weithgarwch, er bod gan bob Aelod-wladwriaeth ddisgresiwn ynglŷn â sut yn union mae'n eu cyflawni (yn y DU cânt eu cyflawni drwy sawl statud wahanol). Ffynhonnell: JNCC.<br><br>Mae ystod eang o weithgarwch statudol ac anstatudol eraill sy'n helpu i weithredu'r Gyfarwyddeb Adar yn y DU. Maent yn cynnwys cynlluniau monitro adar cenedlaethol, ymchwil i gadwraeth adar, Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DU sy'n cynnwys gweithredu yn achos nifer o rywogaethau adar a'r cynefinoedd sy'n eu cynnal. Yn y DU, mae darpariaethau'r Gyfarwyddeb Adar yn cael eu gweithredu drwy Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd), a Rheoliadau Cadwraeth (Cynefinoedd Naturiol &c.) 2017. Mae'r 'Rheoliadau Cynefinoedd' yn gymwys i diroedd y DU a'i moroedd tiriogaethol (hyd at 12 milltir forol o'r arfordir). Ffynhonnell: JNCC.<br><br>Ymateb y Cynllun Rheoli: Mae'n adlewyrchu nodau mecanweithiau cyflawni amrywiol y Gyfarwyddeb ym mholisi rheoli'r Parc Cenedlaethol. |

| |
|---|
| **Cyfarwyddeb UE 85/337/EEC (y Gyfarwyddeb EIA) Cyngor yr Undeb Ewropeaidd** (http://ec.europa.eu/environment/eia/eia-legalcontext.htm) |
| **Nodiadau:** Diwygiwyd gan Gyfarwyddeb y Cyngor 97/11/EC, 2003/35/EC, 2009/31/EC a gwelliannau dilynol wedi'u codeiddio gan Gyfarwyddeb y Cyngor 2011/92/EU a Chyfarwyddeb y Cyngor 2014/52/EU |
| **Cyfarwyddeb UE 91/676/EEC (y Gyfarwyddeb Nitradau) Cyngor yr Undeb Ewropeaidd1991** (http://ec.europa.eu/environment/water/water-nitrates/directiv.html) |
| **Cyfarwyddeb UE 92/43/CEE (y Gyfarwyddeb Cynefinoedd) Cyngor y Cymunedau Ewropeaidd 21 Mai 1992** (http://ec.europa.eu/environment/nature/legislation/habitatsdirective/index_en.htm) |
| **Nodiadau:** Mae'r Gyfarwyddeb yn creu rhwydwaith o safleoedd yn Ewrop i warchod bioamrywiaeth. Mae'r safleoedd hyn wedi'u dynodi fel Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA) (a adwaenir gyda'i gilydd fel safleoedd 'Natura 2000'). Rhaid i brosiect neu gynllun datblygu sy'n debygol o gael effaith sylweddol (naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol) ar safle Natura 2000 fod yn destun 'asesiad priodol'. Os bydd yr asesiad yn dangos bod y cynllun neu brosiect yn debygol o danseilio'r amcanion gwarchodaeth ar gyfer y safle ni chaiff y cynllun neu brosiect fynd yn ei flaen oni bai bod 'rhesymau hanfodol er budd cyhoeddus tra phwysig'. Os mai dyna fydd yr achos yna rhaid rhoi mesurau lliniaru neu iawndal priodol ar waith. Mae 16 o safleoedd Natura 2000 sy'n gyfan gwbl neu'n rhannol yn y Parc Cenedlaethol. |
| **Cyfarwyddeb UE (2008/50/EC) (y Gyfarwyddeb Fframwaith Ansawdd Aer Newydd) Cyngor yr Undeb Ewropeaidd 11 Mehefin 2008** (http://ec.europa.eu/environment/air/quality/legislation/existing_leg.htm) |
| **Cyfarwyddeb UE 1999/31/EC (y Gyfarwyddeb Tirlenwi) Cyngor yr Undeb Ewropeaidd 1999** (EUR-Lex - 31999L0031 - EN - EUR-Lex (europa.eu)) |
| **Cyfarwyddeb UE (2008/56/EC) (y Gyfarwyddeb Fframwaith Strategaeth Forol)** (Yr amgylchedd morol ac arfordirol) (europa.eu)) |

| |
|---|
| **Cyfarwyddeb UE 2000/60/EC (y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr) Cyngor y Cymunedau Ewropeaidd 23 Hydref 2000** (http://ec.europa.eu/environment/water/water-framework/index_en.html) |
| **Nodiadau:** Mae'n cyflwyno 'statws da', safon ansawdd dŵr llymach. Mae'r gyfarwyddeb yn cynnwys gofyniad am 'Gynlluniau Rheoli Basn Afon' a ddylai ddylanwadu ar Gynlluniau Datblygu a chael ei dylanwadu ganddynt. Mae gwella ansawdd dŵr a rheoli adnoddau dŵr yn cyd-fynd â dibenion y Parc Cenedlaethol. Un o brif ganlyniadau'r ddeddfwriaeth yw Cynllun Rheoli Basn Afon. Cyfyngiadau ar amserlenni.<br><br>**Ymateb y Cynllun Rheoli:** Cyfrannu, pan yn bosibl ac yn briodol, at gyflawni amcanion statws ymateb y Cynllun Dŵr. |
| **Cyfarwyddeb UE 2002/49/EC (Cyfarwyddeb ar Sŵn Amgylcheddol) Senedd Ewrop a Chyngor yr Undeb Ewropeaidd 2002** (http://ec.europa.eu/environment/noise/directive.htm) |
| **Cyfarwyddeb UE 2003/35/EC (Cyfarwyddeb yn caniatáu Cyfranogiad y Cyhoedd) Senedd Ewrop a Chyngor yr Undeb Ewropeaidd 2003** (http://eur-lex.europa.eu/LexUriServ/LexUriServ.do?uri=CELEX:32003L0035:en:NOT) |
| **Cyfarwyddeb UE 2004/35/CE (y Gyfarwyddeb Atebolrwydd Amgylcheddol) Senedd Ewrop a Chyngor yr Undeb Ewropeaidd 2004** ()( EUR-Lex - 02004L0035-20190626 - EN - EUR-Lex (europa.eu)) |
| **Cyfarwyddeb UE 2008/98/EC (y Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff) Senedd Ewrop a Chyngor yr Undeb Ewropeaidd 19 Tachwedd 2008** ( EUR-Lex - 32008L0098 - EN - EUR-Lex (europa.eu)) |

| |
|---|
| **Confensiwn Tirweddau Ewrop, Cyngor Ewrop 2000** (http://www.coe.int/t/dg4/cultureheritage/heritage/landscape/default_en.asp) |
| **Cynnig ar gyfer Rhaglen Weithredu Amgylcheddol newydd yr UE hyd 2020, y Comisiwn Ewropeaidd 2012** (http://ec.europa.eu/environment/newprg/index.htm) |
| **Confensiwn Cadwraeth Bywyd Gwyllt a Chynefinoedd Naturiol Ewrop, Cyngor Ewrop 1979** (http://conventions.coe.int/Treaty/en/Treaties/Html/104.htm) |
| **RHEOLI SAFLEOEDD NATURA 2000 Darpariaethau Erthygl 6 o'r Gyfarwyddeb 'Cynefinoedd' 92/43/CEE, y Comisiwn Ewropeaidd 2000** (http://ec.europa.eu/environment/nature/natura2000/management/docs/art6/provision_of_art6_en.pdf) |
| **Y Rhaglen Newid yn yr Hinsawdd Ewropeaidd, y Comisiwn Ewropeaidd 2000** (http://ec.europa.eu/environment/climat/eccp.htm) |
| **Y Fargen Werdd Ewropeaidd** **(**Y Fargen Werdd Ewropeaidd (europa.eu)) |
| Rhaglen Weithredu Amgylcheddol Gyffredinol yr Undeb i 2020 |
| Cytundeb Hinsawdd Glasgow https://unfccc.int/sites/default/files/resource/cma2021_10_add1_adv.pdf |

## Y Deyrnas Unedig

| Cynllun, Polisi neu Raglen |
|---|
| **Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy, Senedd y DU 2000** (http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2000/37/contents) |
| **Nodiadau:** Mae hon yn cynyddu hawl y cyhoedd i fwynhau cefn gwlad ac ar yr un pryd yn sicrhau mesurau diogelu i dirfeddianwyr a meddianwyr. Mae’r Ddeddf yn rhoi hawl mynediad newydd i’r cyhoedd i fynyddoedd, rhosydd, twyndiroedd a thiroedd comin cofrestredig. Mae hefyd: yn cydnabod anghenion tirfeddianwyr a rheolwyr; yn gwella deddfwriaeth hawliau tramwy drwy annog creu llwybrau newydd a rhoi eglurhad lle mae ansicrwydd ynglŷn â pha hawliau sy’n bodoli eisoes; mae’n rhoi sail statudol i gadwraeth bioamrywiaeth a wnaed yn flaenorol fel mater o bolisi; mae’n gwella’r gweithdrefnau sy’n gysylltiedig â hysbysu, gwarchod a rheoli SoDdGA; mae’n cryfhau gwarchodaeth gyfreithiol i rywogaethau dan fygythiad ac mae’n diweddaru Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y’i diwygiwyd); mae’n helpu i reoli Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol. Ffynhonnell: DEFRA. Mae Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 yn diweddaru’r Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad ac mae’n cynnwys gwarchodaeth uwch i SoDdGA yn ogystal â rhoi sail gyfreithiol i weithredu ar fioamrywiaeth.<br><br>**Ymateb y Cynllun Rheoli:** Byddwn yn parhau i weithredu’r Ddeddf â phartneriaid a rhanddeiliaid. |
| **Deddf yr Amgylchedd 1995, Senedd y DU 1995** (http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1995/25/contents) |
| **Nodiadau:** Mae’n diffinio dibenion parciau cenedlaethol, y ddyletswydd economaidd gymdeithasol a’r rhwymedigaeth ar eraill i weithredu dibenion parciau cenedlaethol. Mae’r rhoi cyfarwyddyd clir ar sut i lunio nodau, amcanion a pholisïau’r ddau Gynllun. Sicrhau bod cydbwysedd priodol rhwng cyflawni’r dibenion a’r ddyletswydd economaidd gymdeithasol. Prawf Silkins.<br><br>**Ymateb y Cynllun Rheoli:** Mae’n disgrifio egwyddorion sylfaenol Parciau Cenedlaethol i’w cyflawni drwy ragnodiadau’r Cynllun Rheoli’r Parc Cenedlaethol. |
| **Deddf Diogelu’r Amgylchedd 1990** https://www.legislation.gov.uk/ukpga/1990/43 |

| |
|---|
| Mae Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 yn ddeddfwriaeth ar lefel y DU sy'n rheoleiddio rheoli gwastraff, rheoli allyriadau i'r aer, i ddŵr a'r tir a'r defnydd o organebau wedi'u haddasu'n eneteg. Ei nod yw sicrhau bod diwydiannau'n cyflawni eu gweithgarwch mewn ffordd sy'n cael ei rheoli ac sy'n ddiogel i'r amgylchedd. |
| **Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010**<br>https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2010/29/ |
| Mae Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 yn Ddeddf gan Senedd y DU sydd â'r nod o leihau perygl llifogydd sy'n gysylltiedig â thywydd eithafol, sy'n cael ei waethygu oherwydd newid yn yr hinsawdd. Mae'r Ddeddf yn annog defnydd o systemau draenio trefol cynaliadwy (SUD), mae'n diwygio Deddf y Diwydiant Dŵr i foderneiddio'r rhestr o weithgareddau y gall cwmnïau dŵr gyfyngu arnynt yn ystod sychder, ac mae'n ei gwneud yn haws i gwmnïau dŵr gynnig tariffau is i grwpiau penodol. Mae'r Ddeddf yn galluogi mesurau rheoli perygl llifogydd gwell a mwy cynhwysfawr i bobl, cartrefi a busnesau; mae'n helpu i ddiogelu grwpiau cymunedol rhag codiadau anfforddiadwy mewn costau draenio dŵr wyneb; mae'n helpu cwsmeriaid mewn amgylchiadau agored i niwed; ac mae'n diogelu cyflenwadau dŵr i gwsmeriaid.<br><br>Mae'r Ddeddf wedi'i rhannu'n dair rhan. Mae Rhan 1 yn delio â rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol, gan gynnwys cysyniadau a diffiniadau allweddol, strategaethau, cydweithredu a chyllido, pwerau a dyletswyddau atodol, a phwyllgorau llifogydd ac arfordirol ar gyfer rhanbarthau yn Lloegr. Mae Rhan 2 yn ymdrin ag amrywiaeth o bynciau fel draeniad cynaliadwy, cronfeydd dŵr, gweinyddiaeth arbennig, darparu seilwaith, defnydd dŵr, a rheoliadau adeiladu. Mae Rhan 3 yn cynnwys darpariaethau cyffredinol, gan gynnwys diwygiau cyd-gydgrynhoi, is-ddeddfwriaeth, a darpariaethau technegol [1]. |

| |
|---|
| **Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006, Senedd y DU 2006** (http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2006/16/contents) |
| **Nodiadau:** Wedi sefydlu 'Natural England' a'r 'Comisiwn Cymunedau Gwledig'. Mae'n gwneud newidiadau deddfwriaethol i ddiwygio deddfwriaeth cadwraeth natur, ac sy'n gysylltiedig ag is-ddeddfau ar gyfer cerbydau modur (gan roi pwerau i Barciau Cenedlaethol i wneud gorchmynion rheoleiddio traffig); SoDdGA ac mae'n ehangu dyletswydd bioamrywiaeth Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy er enghraifft. Bydd yn helpu i greu amgylchedd naturiol cyfoethog ac amrywiol Ffynhonnell: Defra. |
| **Deddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archeolegol 1979, Senedd y DU 1979** **(**Deddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archeolegol 1979 (legislation.gov.uk)) |
| **Nodiadau:** Y modd o roi gwarchodaeth gyfreithiol i Henebion Cofrestredig. Cyfrwng allweddol i warchod Henebion Cofrestredig. Nid yw'r warchodaeth a roddir yn cynnwys gwarchod lleoliadau a chyffiniau'r henebion. Hefyd, mae'r Ddeddf yn caniatáu i weithrediadau niweidiol penodol barhau mewn amgylchiadau penodol.<br><br>**Ymateb y Cynllun Rheoli**: Cefnogi a defnyddio fframwaith statudol presennol y DU i warchod safleoedd archeolegol, ond yn ymdrechu i gryfhau'r ddeddfwriaeth. |
| **Adolygiad Cenedlaethol Gwirfoddol o gynnydd tuag at y Nodau Datblygu Cynaliadwy (2019)** (https://www.gov.uk/government/publications/uks-voluntary-national-review-of-the-sustainable-development-goals) |
| Mae hwn yn adroddiad cynhwysfawr sy'n edrych ar y cynnydd a wnaed tuag at y Nodau Datblygu Cynaliadwy ac mae'n rhoi trosolwg o sut mae'r DU yn gweithredu'r nodau hynny. Mae'r adroddiad wedi'i rannu'n dair rhan: cyflwyniad, adolygiad o'r cynnydd tuag at y Nodau Datblygu Cynaliadwy, ac atodiad ystadegol. Mae'r adolygiad o'r cynnydd tuag at y Nodau Datblygu Cynaliadwy hefyd wedi'i rannu'n bedair adran: pobl, y blaned, ffyniant, a heddwch. Mae'r adroddiad yn amlygu cyflawniadau'r DU mewn meysydd fel addysg, iechyd, a chydraddoldeb rhywedd, ac mae hefyd yn cydnabod yr heriau sy'n aros. Mae'r atodiad ystadegol yn cynnwys data ar y dangosyddion a ddefnyddir i fesur cynnydd tuag at y Nodau Datblygu Cynaliadwy. |
| **Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd) Senedd y DU 1981** (http://www.jncc.gov.uk/page-3614#download) |
| **Nodiadau**: Y prif fodd i warchod bywyd gwyllt ar dir mawr Prydain. Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd yw'r prif fecanwaith ar gyfer gwarchodaeth ddeddfwriaethol i fywyd gwyllt ar dir mawr Prydain. Dyma'r cyfrwng i weithredu'r Confensiwn ar Warchod Bywyd Gwyllt a Chynefinoedd Naturiol Ewrop ('Confensiwn Bern') a |

| |
|---|
| Chyfarwyddebau'r Undeb Ewropeaidd ar Warchod Adar Gwyllt (2009/147/EC) a Chynefinoedd Naturiol a Ffawna a Fflora Gwyllt (92/43/FFC) ym Mhrydain Fawr. Mae deddfwriaeth debyg yn cael ei deddfu i gyflawni'r rhwymedigaethau hyn mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig. Ffynhonnell: Naturenet. Methodd y Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (fel y'i diwygiwyd) i raddau helaeth i warchod cynefinoedd a rhywogaethau na'u diogelu rhag pwysau o wahanol fathau, ar SoDdGA yn ogystal ag yng nghefn gwlad yn gyffredinol. Roedd Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 yn diweddaru'r Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad yn sylweddol ac mae'n cynnwys gwarchodaeth uwch i Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig.<br><br>**Ymateb y Cynllun Rheoli**: Parhau i ymdrechu i gryfhau polisi ac i weithio â thirfeddianwyr i ddiogelu nodweddion safleoedd a warchodir, ac, yn bwysicach, y cyd-destun lle mae'r safleoedd hynny'n digwydd. |

| **Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017**<br>https://www.legislation.gov.uk/uksi/2017/1012 |
|---|
| Mae Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 yn Offeryn Statudol y DU sy’n galluogi dethol, dynodi, cofrestru, a hysbysu safleoedd sydd i’w gwarchod o dan Gyfarwyddeb y Cyngor 92/43/EEC ar gadwraeth cynefinoedd naturiol ac anifeiliaid a phlanhigion gwyllt. Mae’r rheoliadau wedi’u rhannu’n dair rhan:<br><br>• Mae **Rhan 1** yn cynnwys darpariaethau rhagarweiniol a chyffredinol, gan gynnwys dehongliad, awdurdodau perthnasol, a dyletswyddau sy’n gysylltiedig â’r Cyfarwyddebau.<br>• Mae **Rhan 2** yn delio â gwarchodaeth cynefinoedd naturiol a chynefinoedd rhywogaethau, gan gynnwys dethol safleoedd sy’n gymwys i gael eu dynodi fel rhai o bwys Cymunedol, dynodi ardaloedd cadwraeth arbennig, a chytundebau rheoli.<br>• Mae **Rhan 3** yn ymdrin â gwarchod rhywogaethau, gan gynnwys rhywogaethau anifeiliaid a phlanhigion Ewropeaidd a warchodir, gwarchod anifeiliaid gwyllt a phlanhigion penodol, a gwahardd mathau penodol o ddal neu ladd anifeiliaid gwyllt.<br><br>Gwnaed y rheoliadau ar 30 Hydref 2017 a daethant i rym ar 30 Tachwedd 2017. Mae’r newidiadau a wnaed i’r rheoliadau gan Reoliadau Cadwraeth Bywyd Gwyllt a Chynefinoedd a Rhywogaethau (Diwygio) (Ymadael â’r UE) 2019 yn cynnwys creu rhwydwaith o safleoedd cenedlaethol, pennu amcanion y rhwydwaith, a disodli swyddogaethau’r UE gan rai’r DU.<br><br>**Ymateb y Cynllun Rheoli**: Mae 13 ACA a 5 AGA yn ardal y Parc Cenedlaethol, a rhaid i bolisïau rheoli sicrhau eu bod yn cael eu diogelu. |
| **Fframwaith Bioamrywiaeth y DU ar ôl 2010** (http://jncc.defra.gov.uk/page-6189) |
| **Sicrhau’r Dyfodol – Strategaeth datblygu cynaliadwy Llywodraeth y DU, Llywodraeth y DU 2005**<br>(http://www.defra.gov.uk/publications/2011/03/25/securing-the-future-pb10589/) |
| **Ansawdd Aer: Rhaglen Rheoli Llygredd Aer Ddiwygiedig Llywodraeth y DU (https://www.gov.uk/government/publications/air-quality-revised-uk-national-air-pollution-control-programme)** |
| Fel sy’n ofynnol yn ôl Rheoliadau Terfynau Uchaf Allyriadau Cenedlaethol 2018.<br><br>Mae’r Rheoliadau Terfynau Uchaf Allyriadau Cenedlaethol (NAPCP) yn disgrifio sut y gall y DU gyflawni ymrwymiadau rhwym mewn cyfraith 2020 a 2030 i leihau allyriadau (ERCs). Mae’r ymrwymiadau hyn yn gymwys yn achos 5 llygrydd: |

| |
|---|
| • ocsidau nitrogen<br>• amonia<br>• cyfansoddion organig anweddol difethan<br>• deunydd gronynnol<br>• sylffwr deuocsid |
| **Strategaeth Ansawdd Aer ar gyfer Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon (Cyfrolau 1 a 2) DEFRA 2007** (http://www.defra.gov.uk/environment/quality/air/air-quality/approach/) |
| **Nodiadau:** Mae'r amcanion wedi'u drafftio'n unol â Chyfarwyddebau Ewrop a chyfraith, polisi a safonau'r DU, ac maent yn ymwneud yn bennaf ag iechyd pobl. Rheoli trafnidiaeth (niferoedd cerbydau yn ogystal ag allyriadau cerbydau unigol). Tueddiadau mewn niferoedd, a mannau problemus lleol o ran llygredd aer).<br><br>**Ymateb y Cynllun Rheoli:** Cyfrannu pan yn bosibl at amcanion rheoli ansawdd aer y sir, gyda chyfeiriad at PCC a thargedau a mesurau Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru. |
| **Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr a Chynllunio – Cyngor Cychwynnol i Awdurdodau Cynllunio yng Nghymru a Lloegr EA; RTPI; CLlC; LGA Chwefror 2006** (http://www.environment-agency.gov.uk/research/planning/40195.aspx) |
| **Nodiadau:** Mae'n cynnwys cyngor ar weithredu'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yn achos polisi cynlluniau datblygu (a materion eraill). Mae gofyniad yn y WFD bod yr holl ddyfroedd mewndirol ac arfordirol yn cyrraedd "statws da" erbyn 2015. Mae'n sefydlu strwythur basn afon rhanbarthol gyda thargedau ecolegol ar gyfer dyfroedd wyneb a dangosyddion amgylcheddol eraill.<br><br>**Ymateb y Cynllun Rheoli:** Cyfrannu at nodau'r Cynllun Rheoli Basn Afon drwy bolisïau rheoli'r Parc Cenedlaethol pan yn bosibl. |
| **Dŵr ar gyfer Pobl a'r Amgylchedd: strategaeth adnoddau dŵr ar gyfer Cymru a Lloegr Asiantaeth yr Amgylchedd 2009** (http://www.environment-agency.gov.uk/research/library/publications/40731.aspx) |
| **Rhaglen y DU ar Newid yn yr Hinsawdd DEFRA 2006** (Newid yn yr Hinsawdd, Rhaglen y DU 2006 CM 6764 (publishing.service.gov.uk)) |
| **Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 Llywodraeth y DU 2009** (http://gov.wales/topics/environmentcountryside/fisheries/marine/marine-planning/?lang=en) |

| |
|---|
| **Nodiadau:** Mae Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 yn rhoi pwerau newydd i helpu i gyflawni'r weledigaeth a geir yn Amcanion Morol Uwch y DU.<br><br>Mae'r pwerau newydd a geir yn sgil y Ddeddf hon yn cynnwys:<br>• Cynllunio morol – System newydd ar gyfer cynllunio morol a fydd yn ymdrin â'r holl brif weithgarwch morol<br>• Trwyddedu Morol – Yng Nghymru cafodd pwerau Trwyddedu Morol eu dirprwyo i Cyfoeth Naturiol Cymru yn 2011. Mae'r pwerau trwyddedu hyn yn disodli'r trefniadau trwyddedu a arferai ddod o dan: Deddf Bwyd a'r Amgylchedd 1985, Deddf Amddiffyn y Glannau 1949 a Rheoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol (echdynnu mwynau a threillio gwely'r môr) (Cymru) 2007.<br>Mecaneg Cadwraeth Morol – Mae'r Ddeddf hon yn rhoi'r pwerau i greu Parthau Cadwraeth Morol (MCZ) i gynorthwyo i warchod planhigion ac anifeiliaid morol neu nodweddion daearegol/geomorffolegol. |

| |
|---|
| **Our energy future - creating a low carbon economy DTI 2003**<br>(http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/+/http://www.dti.gov.uk/files/file10719.pdf) |
| **Adolygiad Stern ar economeg newid yn yr hinsawdd, Trysorlys EM 30/10/2006**<br>(http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/+/http:/www.hm-treasury.gov.uk/sternreview_index.htm) |
| **Deddf Rheoli Dŵr a Llifogydd 2010, Llywodraeth y DU**<br>(http://cymru.gov.uk/topics/environmentcountryside/epq/flooding/floodwaterbill/?lang=en) |

**Cymru**

| **Cynllun, Polisi neu Raglen** |
|---|
| **Egwyddorion amgylcheddol, trefniadau llywodraethu a thargedau bioamrywiaeth: Papur Gwyn (2024) Ymgynghoriad Drafft hyd 30 Ebrill 2024** |
| Mae'r Papur Gwyn hwn yn cyflwyno cynigion i gryfhau'n sylweddol y trefniadau llywodraethu amgylcheddol yng Nghymru, rhoi sylw i newid yn yr hinsawdd a cholledion mewn bioamrywiaeth.<br><br>Mae'r cynigion yn cynnwys:<br><br>• Ymgorffori egwyddorion amgylcheddol yng nghyfraith Cymru<br>• Sefydlu corff llywodraethu;<br>• Cyflwyno targedau a dyletswyddau statudol ar gyfer diogelu ac adfer bioamrywiaeth yng Nghymru |
| **Datganiad Ardal Morol, Cyfoeth Naturiol Cymru (Ar waith)**<br>Cyfoeth Naturiol Cymru / Datganiad Ardal Morol |
| Mae Datganiad Ardal Morol Cymru'n disgrifio dyfroedd glannau Cymru, sy'n ymestyn am 12 milltir forol, ac mae'n nodi tair thema allweddol ar gyfer yr ardal:<br><br>1. Adeiladu cadernid ecosystemau morol – Yr hyn a wyddom am yr amgylchedd morol o amgylch Cymru a sut y gellir adeiladu cadernid ecosystemau<br>2. Datrysiadau sy'n seiliedig ar natur ac addasu ar yr arfordir – cyfleoedd i wneud addasiadau ar gyfer newid yn yr hinsawdd<br>3. Manteisio i'r eithaf ar gynllunio morol – sut y gall cynllunio morol helpu i reoli adnoddau naturiol morol yn gynaliadwy |
| **Deddf Amaeth (Cymru) 2023**<br>(https://www.llyw.cymru/deddf-amaeth-cymru-2023 ) |
| Mae'r Ddeddf hon cyfrannu at gyflawni nodau fframwaith amaethyddiaeth yng Nghymru, Rheoli Tir yn Gynaliadwy (SLM). Prif amcan y Ddeddf yw sicrhau bod y sector amaethyddol yng Nghymru'n cynhyrchu bwyd a nwyddau eraill mewn ffordd sy'n gynaliadwy, sy'n ymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur, sy'n diogelu ac yn cyfoethogi cefn gwlad ac adnoddau diwylliannol ac sy'n hybu mynediad cyhoeddus iddynt. Hefyd, mae'r Ddeddf yn hyrwyddo ac yn hwyluso defnydd o'r Gymraeg. |

| |
|---|
| **Cynllun Cymru Gyfan 2021–2025: Gweithio gyda'n Gilydd i Gyrraedd Sero Net (2022)** (https://www.llyw.cymru/gweithio-gydan-gilydd-i-gyrraedd-sero-net-cynllun-cymru-gyfan) |
| **Tu Hwnt i Ailgylchu Strategaeth Economi Gylchol 2021** (https://gov.wales/sites/default/files/publications/2021-03/beyond-recycling-strategydocument.pdf) |
| Mae'n cyflwyno strategaeth i gyflawni economi gylchol yng Nghymru drwy reoli adnoddau'n gyfrifol. |
| **Datganiad Polisi Drafft ar gyfer Tirweddau Gwarchodedig yng Nghymru** http://wales.gov.uk/consultations/cultureandsport/landscape/?lang=en) |
| Disgwylir datganiad polisi newydd gan Lywodraeth Cymru ar barciau cenedlaethol ac ardaloedd o harddwch naturiol eithriadol Cymru yn 2015, yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus yn 2013. Mae'r datganiad polisi'n disodli'r datganiad polisi blaenorol (2007) ar barciau cenedlaethol ac awdurdodau parciau cenedlaethol yng Nghymru. Disgwylir i'r datganiad diwygiedig nodi ystod o ganlyniadau a ddisgwylir i dirweddau gwarchodedig Cymru. Mae datganiad yr ymgynghoriad yn cydnabod y dylent "should be in the vanguard of demonstrating how Wales can secure healthy, biologically diverse and productive environments that are managed sustainably, with communities that are safe and sustainable, and where people choose to live and work."<br><br>Mae'r datganiad ymgynghori hefyd yn awgrymu ymchwilio i ddulliau gwahanol i reoli cynllunio tirweddau gwarchodedig, fel defnyddio un cynllun strategol ar gyfer tirweddau gwarchodedig, a fydd yn cael eu hategu gan gynlluniau cyflawni lleol.<br><br>Ymateb y Cynllun Rheoli: Byddai'n rhesymegol i gynnwys y Cynllun Rheoli hwn ffurfio un o'r cynlluniau cyflawni - sy'n dangos sut y byddai canlyniadau cenedlaethol ar gyfer tirweddau gwarchodedig, ecosystemau ac asedau naturiol eraill yn cael eu cyflawni o fewn ardal Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro. |
| **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** (https://business.senedd.wales/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=10103) |
| Deddf a wnaed gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i wneud darpariaeth sy'n rhoi gofyniad ar gyrff cyhoeddus i wneud pethau er mwyn llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru mewn ffordd sy'n cyd-fynd â'r egwyddor datblygu cynaliadwy; i'w gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus adrodd ar weithredu o'r fath; sefydlu Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i gynghori a chynorthwyo cyrff cyhoeddus i wneud pethau'n unol â'r Ddeddf hon; sefydlu byrddau gwasanaeth cyhoeddus mewn ardaloedd awdurdodau lleol; gwneud darpariaeth sy'n ei gwneud yn |

ofynnol i'r byrddau rheini gynllunio a gweithredu i hybu llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yn ei hardal; ac i ddibenion cysylltiedig.

Prif ddibenion y Ddeddf yw:

- gosod fframwaith y bydd awdurdodau cyhoeddus penodedig yn ei ddilyn i sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau (yr egwyddor datblygu cynaliadwy),
- rhoi nodau llesiant ar waith y dylai'r awdurdodau rheini ymdrechu i'w cyflawni i wella llesiant yn awr ac yn y dyfodol,
- nodi sut y bydd yr awdurdodau rhieni'n dangos sut y maent yn gweithio tuag at gyflawni'r nodau llesiant;
- rhoi Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus a chynlluniau llesiant lleol ar sail statudol ac, wrth wneud hynny, symleiddio'r gofynion cyfredol o ran cynllunio cymunedol integredig,
- sefydlu Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i Gymru i eiriol dros genedlaethau'r dyfodol ac a fydd yn cynghori ac yn cynorthwyo awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru i gyflawni eu dyletswyddau o dan y Bil.

Mae'r Ddeddf yn cyflwyno 7 nod llesiant i Gymru:

- Cymru lewyrchus.
- Cymru gydnerth.
- Cymru iachach.
- Cymru fwy cyfartal.
- Cymru o gymunedau cydlynus.
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.
- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

**Ymateb y Cynllun Rheoli:** Mae'r cynigion yn cynnwys cyflwyno dyletswydd newydd ar wasanaethau cyhoeddus Cymru, ei gwneud yn ofynnol i ymgorffori datblygu cynaliadwy mewn prosesau penderfynu strategol. Mae natur dibenion y Parc Cenedlaethol, dyletswydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol i'w cyflawni, a'r dull cynllunio rheoli addasol,

| |
|---|
| seiliedig ar ganlyniadau a fabwysiadwyd gan y Cynllun Rheoli'n helpu i sicrhau bod camau a gymerir gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol a'i bartneriaid yn helpu i gyflawni'r ddyletswydd arfaethedig. |

| **Deddf Cynllunio (Cymru) 2015**<br>(Cynllunio Gwlad a Thref \| Cyfraith Cymru (llyw.cymru)) |
|---|
| Mabwysiadwyd Deddf Cynllunio (Cymru) gan y Cynulliad Cenedlaethol ym mis Gorffennaf 2015, gyda'r nod o foderneiddio a gwella'r system gynllunio i hwyluso darpariaeth cartrefi, swyddi a seilwaith.<br><br>Prif negeseuon:<br>• Atgyfnerthu rolau Llywodraeth Cymru fel stiwardiaid gweithredol y system gynllunio yng Nghymru<br>• Hybu newid diwylliannol mewn cynllunio i helpu i'w wneud yn fwy positif, a chefnogi datblygu priodol yn fwy effeithiol<br>• Hyrwyddo gweithio mewn partneriaeth rhwng Awdurdodau Cynllunio Lleol.<br><br>Goblygiadau i Gynllunio Cymreig:<br><br>• Fframwaith Datblygu Cenedlaethol newydd – canolbwyntio ar faterion cynllunio defnydd tir ar lefel genedlaethol, gan ganfod lleoliadau allweddol ar gyfer datblygu seilwaith a phennu'r fframwaith cenedlaethol ar gyfer cynllunio<br>• Cynlluniau Is-ranbarthol – yn benodol ar gyfer Caerdydd, Abertawe a choridor yr A55.<br>• Datblygiadau Lleol – Wedi'u cadw ond bydd angen eu hadolygu i sicrhau eu bod yn gydnaws â'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (a'r Cynlluniau Is-ranbarthol pan yn briodol)<br>• Mwy o bwerau i Weinidogion Cymru – mewn rhai amgylchiadau bydd ymgeiswyr yn gallu ymgeisio'n uniongyrchol i Lywodraeth Cymru. |
| **Dyfodol Cymru: Y Cynllun Cenedlaethol 2040 (2021)**<br>(https://www.llyw.cymru/cymrur-dyfodol-y-cynllun-cenedlaethol-2040) |
| Mae Dyfodol Cymru – cynllun cenedlaethol 2040 yn strategaeth ofodol genedlaethol sy'n disgrifio lle dylai Cymru ganolbwyntio o ran datblygiadau yn ystod yr 20 mlynedd nesaf i roi sylw i flaenoriaethau cenedlaethol allweddol drwy'r system gynllunio. Mae gan y cynllun y nod o gynnal a datblygu economi fywiog, cefnogi ganol trefi a dinasoedd, cyflawni datgarboneiddio a gallu gwrthsefyll effeithiau newid yn yr hinsawdd, datblygu ecosystemau cryf, a gwella iechyd a llesiant cymunedau. Dyfodol Cymru yw haen uchaf Llywodraeth Cymru o'r fframwaith datblygu a dyma'r cynllun datblygu gofodol cenedlaethol cyntaf i gael ei gyhoeddi yn y DU. Mae'r cynllun yn disodli Cynllun Gofodol Cymru ac mae'n rhan o'r cynllun datblygu statudol sy'n golygu bod ei gynnwys yn ddylanwadol yn y broses gynllunio. Mae'r |

| |
|---|
| cynllun yn adlewyrchu'r gwersi a ddysgwyd yn sgil y pandemig Covid-19 ac mae'n ymdrechu i sicrhau bod y system gynllunio ar bob lefel yn gydnaws â chyflawni nodau strategol a pholisïau Llywodraeth Cymru. |
| **Deddf Cynllunio (Cymru) 2016**<br>(EN Draft Template (legislation.gov.uk)) |
| Mae Deddf Cynllunio (Cymru) yn cyflwyno deddfwriaeth gynllunio newydd sy'n ymdrin â'r pynciau canlynol:<br><br>• Rheoli adnoddau naturiol mewn ffordd gynaliadwy<br>• Newid yn yr Hinsawdd – gan gynnwys targedau allyriadau statudol<br>• Codi tâl am fagiau untro – rhagor o bwerau i Weinidogion ar faterion yn ymwneud â chodi tâl am fagiau untro.<br>• Casglu a gwaredu gwastraff – gwelliannau i brosesau rheoli gwastraff, gweithio tuag at lefelau ailgylchu uwch, trefniadau rheoli gwastraff bwyd gwell ac adennill mwy o ynni.<br>• Pysgodfeydd a physgod cregyn – egluro trefniadau ar drwyddedu a rheoli.<br>• Pwyllgor llifogydd ac erydu arfordirol a draenio tir – eglurhad ar y cyfreithiau ar drefniadau rheoleiddiol amgylcheddol eraill gan gynnwys rheoli perygl llifogydd. |
| **Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023**<br>(Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) (senedd.cymru)) |
| **Nodiadau:** Mae Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 yn cyflwyno'r darpariaethau sy'n diwygio agweddau penodol ar y gyfraith sy'n ymwneud â henebion ac adeiladau rhestredig; sefydlu cofrestr o barciau a gerddi hanesyddol a rhestr o enwau lleoedd hanesyddol; sefydlu cofnodion yr amgylchedd hanesyddol ar gyfer ardaloedd awdurdodau lleol; sefydlu Panel cynghori ar gyfer Amgylchedd Hanesyddol Cymru, ac ar gyfer dibenion cysylltiedig.<br><br>Mae'r Ddeddf yn cynnwys y darpariaethau canlynol:<br><br>• Gwneud diwygiadau i Ddeddf Henebion ac Ardaloedd Archeolegol 1979 – pwerau i Weinidogion, gweithdrefnau i restru henebion ac yn y blaen.<br>• Gorfodaeth yn achos henebion – gan gynnwys ei gwneud yn anos i unigolion sy'n difrodi henebion gwarchodedig i ddianc rhag cael eu herlyn drwy honni anwybodaeth am statws neu leoliad heneb.<br>• Cyflwyno pwerau newydd i atal gwaith heb ei awdurdodi ar safleoedd ac adeiladau hanesyddol. |

- Cyflwyno pwerau newydd i awdurdodau lleol i atal adeiladau hanesyddol rhag dirywio e.e. drwy orchmynion cadw a thrwy ffyrdd newydd o adennill costau drwy ymyriadau uniongyrchol.
- Gwneud gwaith cynnal Cofnodion yr Amgylchedd Hanesyddol (HER) yn statudol
- Sefydlu cofnod newydd ar gyfer enwau lleoedd hanesyddol.

**Polisi Cynllunio Cymru Llywodraeth Cymru Rhifyn 11 (Chwefror 2021)**
(Polisi Cynllunio Cymru - Rhifyn 11 (llyw.cymru))

**Nodiadau:** Mae Polisi Cynllunio Cymru (PPW) yn cyflwyno polisïau cynllunio defnydd tir Llywodraeth Cymru. Mae'n cael ei ategu gan gyfres o Nodiadau Cyngor Technegol. Rhoddir cyngor gweithdrefnol yng nghylchlythyrau Cynulliad Cenedlaethol Cymru / Y Swyddfa Gymreig. Mae Polisi Cynllunio Cymru, y Nodiadau Cyngor Technegol a'r cylchlythyrau gyda'i gilydd yn ffurfio polisi cynllunio cenedlaethol y dylai awdurdodau cynllunio lleol ei ystyried wrth baratoi Cynlluniau Datblygu Lleol (CDLl).

**Ymateb y Cynllun Rheoli:** Awdurdod y Parc Cenedlaethol yw'r awdurdod cynllunio ar gyfer ardal y Parc Cenedlaethol. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn rhoi fframwaith polisi ar gyfer polisïau cynllunio a rheoli datblygiadau.

**Ffermio Cynaliadwy: Cynigion Bras ar gyfer 2025**
**(**Cynllun Ffermio Cynaliadwy (llyw.cymru))

**Nodyn:** Bydd y Cynllun Ffermio Cynaliadwy'n disodli Cynllun y Taliad Sylfaenol fel prif ffynhonnell cymorth y Llywodraeth i ffermwyr yng Nghymru. Bydd ffermwyr yn cael eu gwobrwyo am weithredoedd sy'n ymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur, ac am gynhyrchu bwyd yn gynaliadwy. Mae'r cynllun yn galw am fwy o integreiddio rhwng ffermwyr a'u tirwedd, ac felly bydd ffermwyr yn cael mwy o help i gynnal a gwella, a chyflawni mwy ar gyfer tirweddau gwarchodedig (Parciau Cenedlaethol) ac amgylcheddau hanesyddol.

**Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru (https://www.llyw.cymru/cynllun-morol-cenedlaethol-cymru)**

Mae Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru'n ddogfen bolisi sy'n cyflwyno strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer defnydd cynaliadwy o'i moroedd am yr 20 mlynedd nesaf. Mae'r cynllun yn cynnwys ardal o tua 12,350 milltir sgwâr (32,000 cilometr sgwâr) o fôr a 1,300 milltir (2,120 cilometr) o arfordir.

| |
|---|
| Nod y cynllun yw cael cydbwysedd rhwng agweddau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol rheolaeth forol. Mae'n disgrifio fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau sy'n ystyried anghenion gwahanol randdeiliaid a'r amgylchedd. Mae'r cynllun hefyd yn hyrwyddo datblygu cynaliadwy mewn diwydiannau morol fel ynni adnewyddadwy, pysgota, a thwristiaeth. |
| Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy a'n Llesiant (2019) (https://www.llyw.cymru/rheoli-adnoddau-naturiol-yn-gynaliadwy-canllaw ) |
| **Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2020** (https://www.futuregenerations.wales/wp-content/uploads/2020/05/FGC-Report-English.pdf) |
| Adroddiad a gynhyrchwyd gan y Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol sy'n cynnwys asesiad o'r gwelliannau y dylai pob un o gyrff cyhoeddus Cymru eu gwneud i gyflawni'r nodau llesiant. Mae'r adroddiad yn cael ei gyhoeddi bob pum mlynedd. |
| **Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru (FCERM) (2020)** (https://www.llyw.cymru/strategaeth-genedlaethol-ar-gyfer-rheoli-perygl-llifogydd-ac-erydu-arfordirol-yng-nghymru) |
| Mae'r ddogfen strategaeth hon yn disgrifio dull rheoli risg sy'n annog mwy o gydnerthedd, atal ac ymwybyddiaeth, fel y gall y cyhoedd a'r sawl sydd â dylanwad ar ddatblygiadau a'r amgylchedd wneud penderfyniadau gwell. Mae'r ddogfen hefyd yn cynnwys crynodeb o'r strategaeth sy'n disgrifio sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru yn ystod y 10 mlynedd nesaf, a chryfhau ac egluro rolau a chyfrifoldebau. |
| **Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021** (https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2023-10/rheoliadau-adnoddau-dwr-rheoli-llygredd-amaethyddol-cymru-2021-canllawiau-ar-gyfer-ffermwyr.pdf) |
| Nod y rheoliadau hyn yw mynd i'r afael â llygredd amaethyddol yng Nghymru drwy bennu rheolau ar gyfer arferion ffermio penodol, yn benodol pennu safonau ar gyfer gwneud silwair, cynllunio rheoli maethynnau, taenu gwrtaith yn gynaliadwy a storio elifiant silwair a storio tail/slyri. |
| **Croeso i Gymru: blaenoriaethau i'r economi ymwelwyr 2020 – 2025** (https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-02/croeso-i-gymru-blaenoriaethau-ir-economi-ymwelwyr-2020-2025.pdf) |
| Nod y strategaeth hon yw tyfu'r diwydiant twristiaeth yng Nghymru drwy ganolbwyntio ar ddatblygu sgiliau, twf economaidd teg, cynaliadwyedd amgylcheddol a buddion cymdeithasol a diwylliannol.<br><br>Mae'r cynllun yn seiliedig ar bedair prif flaenoriaeth: |

- Cynnyrch a lleoedd gwych
- Profiadau o ansawdd i ymwelwyr
- Brand arloesol i Gymru
- Sector cysylltiedig a bywiog

Cynllun cyflawni cenedlaethol ar gyfer trafnidiaeth, 2022 i 2027, Llywodraeth Cymru (2023)
(Cynllun cyflawni cenedlaethol ar gyfer trafnidiaeth 2022 i 2027 | LLYW.CYMRU)

Mae'r Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth 2022 i 2027 yn dangos sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflawni ar y blaenoriaethau a'r uchelgais a gyflwynwyd yn Llwybr Newydd – Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021 (WTS). Mae'r cynllun cynhwysfawr hwn yn cwmpasu rhaglenni, prosiectau, a pholisïau newydd a fydd yn ffurfio trafnidiaeth ledled Cymru am y pum mlynedd nesaf.

Blaenoriaethau:

- Sero Net
- Hygyrchedd
- Effeithlonrwydd

**Cynllun Aer Glân i Gymru: Aer Iach, Cymru Iach, Llywodraeth Cymru (2023)**
(Cynllun Aer Glân i Gymru: Aer Iach, Cymru Iach | LLYW.CYMRU)

Mae'r Cynllun Aer Glân i Gymru: Aer Iach, Cymru Iach yn cyflwyno strategaeth gynhwysfawr i wella ansawdd aer ym mhob rhan o Gymru. Wedi'i ddatblygu gan Lywodraeth Cymru, nod y cynllun hwn yw lleihau effeithiau llygredd aer ar iechyd pobl, bioamrywiaeth, yr amgylchedd naturiol, a'r economi.

| **Nodyn Cyngor Technegol 2: Cynllunio a Thai Fforddiadwy, Llywodraeth Cymru Mehefin 2006** (Nodyn Cyngor Technegol 2: Cynllunio a Thai Fforddiadwy \| LLYW.CYMRU) |
|---|
| **Nodiadau:** Dyma ganllaw ymarferol ar sicrhau tai fforddiadwy. Mae gofyniad ar Gynlluniau Datblygu i bennu targedau ar gyfer darparu tai fforddiadwy yn seiliedig ar yr angen a ganfuwyd yn ardal y cynllun. Mae argaeledd tai fforddiadwy'n fater cynaliadwyedd. Mae'r Nodyn Cyngor Technegol yn datgan bod yn rhaid rhoi sylw i unrhyw angen am dai fforddiadwy. |

| **Nodyn Cyngor Technegol 4: Datblygiad Manwerthol a Masnachol, Llywodraeth Cymru** 2016 (https://www.llyw.cymru/nodyn-cyngor-technegol-tan-4-datblygiad-manwerthol-masnachol) |
|---|
| **Nodiadau:** Cyngor a gofynion ar gyfer mesur canolfannau manwerthu hyfyw a hanfodol. Mae'n cynnwys cyngor ar fonitro, newid defnydd, parcio ceir, ac asesiadau o effaith. Mae mesur a chyflawni canol trefi hanfodol a hyfyw yn galluogi mynediad at wasanaethau lleol o safon uchel. Mae gweithgarwch manwerthu yn ei hanfod yn cael ei arwain gan y farchnad. Mae rôl yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn gyfyngedig, a bydd amodau'r farchnad yn effeithio ar strategaethau manwerthwyr. |

| **Nodyn Cyngor Technegol 5: Cynllunio a Chadwraeth Natur, Llywodraeth Cymru Ionawr 2009** ( https://www.llyw.cymru/nodyn-cyngor-technegol-tan-5-cynllunio-chadwraeth-natur ) |
|---|
| **Nodiadau:** Mae'n cynnwys cyngor ar sut y dylai'r system cynllunio defnydd tir gyfrannu at warchod a chyfoethogi bioamrywiaeth a chadwraeth ddaearegol. Mae'n manylu ar yr egwyddorion cynllunio allweddol ar gyfer cadwraeth natur, cyngor ar baratoi ac adolygu cynlluniau datblygu, rheoli datblygu, a gwarchod safleoedd a rhywogaethau. Mae gwarchod a chyfoethogi bioamrywiaeth yn rhan hanfodol o gynllunio ar gyfer datblygu cynaliadwy. Gall defnyddio a datblygu tir fygwth gwarchodaeth nodweddion naturiol a bywyd gwyllt. |

| **Nodyn Cyngor Technegol 6: Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig, Llywodraeth Cymru 2010** (https://www.llyw.cymru/nodyn-cyngor-technegol-tan-6-cynllunio-ar-gyfer-cymunedau-gwledig-cynaliadwy) |
|---|
| **Nodiadau:** Mae'n cynnwys cyngor ar rôl y system gynllunio i helpu i gyflawni cymunedau gwledig cynaliadwy, gyda chanllawiau penodol yn ymwneud â;<br>• cymunedau gwledig cynaliadwy<br>• economïau gwledig cynaliadwy<br>• tai fforddiadwy gwledig<br>• anheddau mentrau gwledig<br>• datblygiadau un blaned<br>• gwasanaethau gwledig cynaliadwy<br>• amaethyddiaeth gynaliadwy<br><br>Dylai'r Nodyn Cyngor Technegol hwn gael ei ddefnyddio ar y cyd â Pholisi Cynllunio Cymru a Nodyn Cyngor Technegol 2: Cynllunio a Thai Fforddiadwy.<br><br>**Ymateb y Cynllun Rheoli**: Er bod y nodyn cyngor technegol hwn yn ymwneud yn uniongyrchol â'r system gynllunio, mae Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol yn allweddol i hybu cymunedau gwledig cynaliadwy o fewn y Parc Cenedlaethol ac mae'n cynnig gweledigaeth eang ac amcanion sy'n effeithio ar bob cais cynllunio a gaiff yr awdurdod. |
| **Nodyn Cyngor Technegol 7: Rheoli Hysbysebion Awyr Agored, Llywodraeth Cymru 1996** (https://www.llyw.cymru/nodyn-cyngor-technegol-tan-7-rheoli-hysbysebion-awyr-agored ) |
| **Nodiadau:** Mae rheoli fwy neu lai pob hysbyseb awyr agored er lles amwynderau a diogelwch y cyhoedd yn bosibl, er bod rhai sydd wedi'u heithrio o reolaeth fanwl, neu sy'n gymwys i gael caniatâd tybiedig. Mae'r rhan fwyaf o'r Parc Cenedlaethol o fewn Ardal Rheolaeth Arbennig ar Hysbysebion. Mae rheoli hysbysebion yn briodol yn bwysig i gymeriad y Parc Cenedlaethol. |

| |
|---|
| |
| **Nodyn Cyngor Technegol 11: Sŵn, Llywodraeth Cymru 1997**<br>(Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 11: sŵn \| LLYW.CYMRU) |
| **Nodiadau:** Mae'n cynnwys cyngor ar sut y gallai'r system gynllunio gael ei defnyddio i leihau effeithiau andwyol sŵn heb osod cyfyngiadau afresymol ar ddatblygiad. Mae'n disgrifio rhai o'r prif ystyriaethau y dylai'r Awdurdod Parc Cenedlaethol eu cadw mewn cof wrth lunio polisïau cynlluniau datblygu ac wrth wneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio a fydd yn cynhyrchu sŵn neu a gaiff eu hamlygu i ffynonellau sŵn presennol. |
| **Nodyn Cyngor Technegol 12: Dylunio, Llywodraeth Cymru 2016**<br>(Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 12: dylunio \| LLYW.CYMRU) |
| Mae'r TAN hwn yn canolbwyntio ar ymddangosiad datblygiadau arfaethedig a'u perthynas â'u cyffiniau. Mae'n tybio bod dylunio'n golygu'r berthynas rhwng pob elfen o'r amgylchedd adeiledig a naturiol, gan gynnwys y berthynas rhwng adeiladau a rhwng adeiladau a gofodau. Mae hefyd yn ystyried natur y parth cyhoeddus, y berthynas rhwng gwahanol ardaloedd datblygedig ac adeiladau â chefn gwlad, a phatrymau'r symudiadau sy'n deillio. Trafodir hefyd yr angen i roi sylw i'r materion hyn mewn cynlluniau datblygu ac wrth reoli datblygu, a hefyd mater penodol dylunio ac anabledd. Cyflawni ac annog dylunio da yn y Parc Cenedlaethol. |

| **Nodyn Cyngor Technegol 13: Twristiaeth, Llywodraeth Cymru 1997** (Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 13: twristiaeth \| GOV.WALES) |
|---|
| **Nodiadau:** Mae'r TAN hwn yn cydnabod er na ellir edrych ar dwristiaeth fel categori defnydd tir unigol neu unigryw, dylai'r materion a godir ganddo gael sylw wrth baratoi neu ddiwygio cynlluniau datblygu ac mewn penderfyniadau rheoli datblygiadau. Mae hefyd yn ystyried problemau sy'n gysylltiedig â chynnal a gwella'r stoc o westai, a darparu safleoedd a chyfleusterau priodol ar gyfer carafanau gwyliau a theithio. Mae hefyd yn trafod gosod a gorfodi amodau meddiannaeth dymhorol a gwyliau ynghlwm wrth ganiatâd cynllunio. Mae twristiaeth yn rhan bwysig o'r economi yn y Parc Cenedlaethol. |
| **Nodyn Cyngor Technegol 14: Cynllunio'r Arfordir, Llywodraeth Cymru 1998** (Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 14: cynllunio'r arfordir \| LLYW.CYMRU) |
| Mae'r TAN hwn yn disgrifio rôl awdurdodau cynllunio lleol a'r ystod o reolaethau sectoraidd a rheoleiddiol dros ddatblygiadau morol ac arfordirol. Mae'r canllaw yn ymdrin â nifer o faterion y mae'n rhaid eu hystyried oherwydd eu heffeithiau posibl ar brosesau ffisegol ac amodau'r ddaear, yn ogystal â'r cydbwysedd cyffredinol, sensitifrwydd a chadwraeth yr ardal. Mae'r rhain yn cynnwys yr effaith weledol o'r tir a'r môr, a'r angen posibl am waith adweirio ac amddiffyn. Mae'n edrych ar ystyriaethau cynllunio a materion i'w cynnwys mewn cynlluniau datblygu ac wrth wneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio. Rhoddir ystyriaeth i'r angen i warchod ac amddiffyn safleoedd morol ac arfordirol dynodedig. Cyngor allweddol i'r parc cenedlaethol hwn sy'n un arfordirol yn bennaf. |
| **PPW Nodyn Cyngor Technegol 15: Datblygu, Llifogydd ac Erydu Arfordirol (2021)** (https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-09/tan15-datblygu-perygl-llifogydd.pdf) |
| Mae'r TAN hwn yn rhoi cyngor ar y defnydd o fapiau cyngor datblygu i benderfynu ar berygl lifogydd i ddatblygiad. Bydd y TAN yn cael ei ddisodli gan TAN 15 newydd a'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio o 1 Mehefin 2023. |

| **Nodyn Cyngor Technegol 16: Chwaraeon a Hamdden, Llywodraeth Cymru 2009** (Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 16: chwaraeon, hamdden a mannau agored \| LLYW.CYMRU ) |
|---|
| **Nodiadau:** Mae'r TAN hwn yn nodi cyfrifoldebau Cyngor Chwaraeon Cymru, Cyngor Cefn Gwlad ac Asiantaeth yr Amgylchedd o ran chwaraeon a chynllunio hamdden, ac mae'n nodi'n benodol yr angen i awdurdodau cynllunio ystyried y berthynas rhwng defnydd tir er mwyn hamdden, a buddiannau cadwraeth. Dywed nad yw'r llywodraeth yn rhagnodi safonau cenedlaethol ar gyfer darpariaeth hamdden. Mae'n tynnu sylw at werth mannau agored i'r perwyl hwn, boed yn eiddo i'r awdurdod lleol neu beidio. Mae hefyd yn trafod darparu safleoedd a chyfleusterau a phroblemau penodol sy'n gysylltiedig â sŵn a chyfleusterau â llifoleuadau. Gwarchodaeth a darparu mannau gwyrdd cyhoeddus a phreifat ar gyfer cymeriad, cyfoethogi ac anghenion hamdden. Bydd y TAN hwn yn cael ei ddisodli yn ystod paratoi'r Cynllun Datblygu Lleol. |
| **Nodyn Cyngor Technegol 18: Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru 2007** (Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 18: trafnidiaeth \| LLYW.CYMRU) |
| **Nodiadau:** Mae hwn yn disgrifio sut i integreiddio defnydd tir a chynllunio trafnidiaeth. Mae'n egluro sut y dylai effeithiau trafnidiaeth gael eu hasesu a'u lliniaru.<br>Mae'r Nodyn Cyngor Technegol yn cynnwys cyngor ar:<br>• Integreiddio rhwng Cynllunio Defnydd Tir a Thrafnidiaeth.<br>• Lleoliad Datblygiadau;<br>• Parcio;<br>• Dyluniad Datblygiadau;<br>• Cerdded a Seiclo;<br>• Trafnidiaeth Gyhoeddus;<br>• Cynllunio ar gyfer Seilwaith Trafnidiaeth;<br>• Asesu Effeithiau a Rheoli Gweithredu. |

| |
|---|
| **Nodyn Cyngor Technegol 20: Cynllunio a'r Gymraeg (2017)** (https://www.llyw.cymru/nodyn-cyngor-technegol-tan-20-cynllunio-ar-gymraeg) |
| Mae TAN 20 yn cynnwys canllaw ar roi ystyriaeth i'r Gymraeg fel rhan o broses llunio'r Cynllun Datblygu, a sut y gellir ei ymgorffori i'r broses Asesiad Integredig (Arfarniad o Gynaliadwyedd). |
| **Nodyn Cyngor Technegol 21: Gwastraff, Llywodraeth Cymru 2014** (Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 21: gwastraff \| LLYW.CYMRU) |
| Mae'n cynnwys cyngor ar sut y dylai cynllunio gyfrannu at reoli adnoddau gwastraff yn gynaliadwy, ac fe'i bwriadwyd i hwyluso'r broses o gyflwyno fframwaith cynllunio defnydd tir cynhwysfawr, integredig a chynaliadwy yng Nghymru. Mae rheoli gwastraff yn ganolog i gynaliadwyedd.<br><br>**Diweddariad Chwefror 2014**: Mae TAN 21 yn nodi'r angen i fonitro caniatâd cynllunio a thrwyddedau amgylcheddol ar gyfer cyfleusterau gwastraff er mwyn cadarnhau cyfanswm y capasiti rheoli gwastraff posibl yn y dyfodol. Bydd canlyniadau'r gwaith casglu data hwn yn cael ei gyhoeddi'n flynyddol ar lefel genedlaethol. Mae diweddariad TAN 21 hefyd yn cyflwyno'r gofyniad am asesiadau cynllunio gwastraff, sy'n rhaid eu cyflwyno â phob cais cynllunio am gyfleusterau rheoli gwastraff (gwaredu, adfer neu ailgylchu). |

| |
|---|
| **Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 23: datblygu economaidd, Llywodraeth Cymru 2014** **(**Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 23: datblygu economaidd \| LLYW.CYMRU) |
| Mae Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 23 yn cynnwys canllaw ar rôl cynllunio defnydd tir i gynhyrchu cyfoeth, swyddi, ac incwm. Ei nod yw helpu awdurdodau cynllunio lleol i baratoi polisïau Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) a gwneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth ynghylch datblygu economaidd. |
| **Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 24: yr amgylchedd hanesyddol, Llywodraeth Cymru 2017** (Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 24: yr amgylchedd hanesyddol \| LLYW.CYMRU) |
| Mae Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 24 yn cynnwys canllaw ar sut y mae'r system gynllunio'n ystyried yr amgylchedd hanesyddol yn ystod paratoi cynllun datblygu lleol a gwneud penderfyniadau ar ganiatáu ceisiadau cynllunio ac adeiladau rhestredig. |
| **Nodyn Cyngor Technegol Mwynau (Cymru) 1: Agregau, Llywodraeth Cymru 2004** (Nodyn Cyngor Technegol Mwynau (MTAN) Cymru 1: agregau \| LLYW.CYMRU) |
| Mae'n cynnwys cyngor manwl ar y trefniadau ar gyfer llunio'r polisi ar gyfer echdynnu agregau gan awdurdodau mwynau a'r diwydiant agregau. Echdynnu cynaliadwy sy'n rhoi ystyriaeth lawn i'r effeithiau ar amgylchedd ac amwynderau, a chynyddu lefelau ailddefnyddio ac ailgylchu deunyddiau. |

| **Nodyn Cyngor Technegol Mwynau 2: Glo, Llywodraeth Cymru 2009** (Nodyn Cyngor Technegol Mwynau (MTAN) Cymru 2: glo \| LLYW.CYMRU) |
| --- |
| Mae'n cynnwys cyngor manwl ar y trefniadau ar gyfer cyflawni'r polisi ar echdynnu glo drwy waith wyneb a thanddaearol gan awdurdodau cynllunio mwynau (MPA) a'r diwydiant glo. Mae'r nodyn cyngor yn canolbwyntio ar warchod 'ardaloedd dynodedig' (gan gynnwys Parciau Cenedlaethol) ac ar leihau effeithiau amgylcheddol echdynnu glo.<br><br>**Ymateb y Cynllun Rheoli:** Mae gan y Cynllun Datblygu Lleol bolisïau sy'n ymwneud â dibenion a nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol – neu gopïo ymateb gan MPP Cymru uchod. |

| **Cymru: Gwlad Well Llywodraeth Cynulliad Cymru Medi 2003** (d42925_NAW_Covers (ioe.ac.uk)) |
|---|
| **Nodiadau:** Cynllun strategol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Cymru. Mae dyletswydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol i feithrin llesiant cymdeithasol ac economaidd (i gyflawni dibenion y Parc) yn un o'r ffyrdd y mae Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn cyfrannu at agenda strategol Llywodraeth Cynulliad Cymru. Fodd bynnag, mae'r buddiannau sydd ynghlwm wrth gyflawni dibenion y Parc Cenedlaethol eu hunain, gan yr Awdurdod ac eraill, yn aml yn llwybr yr un mor uniongyrchol ac yn gwneud cyfraniad yr un mor fawr. Mae'r pwyslais ar ddatblygu economaidd drwy gynyddu Cynnyrch Domestig Gros.<br><br>**Ymateb y Cynllun Rheoli:** Parhau i warchod a gwella sylfaen economaidd adnoddau naturiol a diwylliannol; annog y galw i reoli adnoddau adnewyddadwy'n gynaliadwy; annog effeithiau lluosyddion gwerth ychwanegol; dileu'r rhwystrau sy'n atal ac yn annog pobl rhag gwneud ymarfer corff; cyfrannu at ystod o fentrau trafnidiaeth gyhoeddus a chynaliadwy; sbarduno chwilfrydedd gydol oes a herio agweddau drwy ddysgu pleserus yn yr awyr agored; gwneud y cysylltiadau rhwng iechyd a chyrhaeddiad addysgol; gofalu am yr unigolyn, y gymuned a'r amgylchedd, annog busnesau lleol a lleoliadau busnes atyniadol. |
| **Cymru: Economi yn Ffynnu. Fframwaith Strategol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Datblygu Economaidd** (http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20070305103412/new.wales.gov.uk/about/departments/dein/publications/wave?lang=en) |
| **Nodiadau:** Mae'n cyflwyno fframwaith ar gyfer datblygu economaidd yng Nghymru, gyda phwyslais ar leihau diweithdra ymhellach a gwella ansawdd swyddi ac enillion. Mae'n mabwysiadu agwedd gyfannol, at gynyddu gweithgarwch economaidd (addysg, hyfforddiant a sgiliau; dileu rhwystrau/diffyg cymhellion i weithio). Mae integreiddio ystyriaethau cymdeithasol ac amgylcheddol i hybu datblygu cynaliadwy'n ganolog i'r dull.<br><br>**Ymateb y Cynllun Rheoli:** Parhau i lunio polisi cadwraeth er mwyn optimeiddio buddion economaidd-gymdeithasol o fewn y Parc Cenedlaethol a thu hwnt. |
| **Adnewyddu Economaidd: cyfeiriad newydd, Llywodraeth Cymru 2010** (Adnewyddu Economaidd: cyfeiriad newydd (bridgend.gov.uk)) |
| **Nodiadau:** Mae'n cyflwyno strategaeth Llywodraeth Cymru i godi Cymru o ddirwasgiad economaidd.<br><br>Mae'r strategaeth yn cynnig pum blaenoriaeth i gyflawni hyn:<br><br>• Buddsoddi mewn seilwaith cynaliadwy o safon |

- Gwneud Cymru’n lle mwy deniadol i wneud busnes
- Ehangu a dyfnhau’r sylfaen sgiliau
- Annog arloesedd
- Targedu’r cymorth rydym yn ei gynnig i fusnesau

| **Partneriaeth ar gyfer Twf: Strategaeth ar gyfer Twristiaeth 2013-2020, Llywodraeth Cymru 2013** (partneriaeth-ar-gyfer-twf-ar-gyfer-twristiaeth-2013-2020.pdf (LLYW.CYMRU)) |
| --- |
| **Nodiadau:** Mae'n cyflwyno gweledigaeth strategol i Lywodraeth Cymru a'r diwydiant twristiaeth i weithio mewn partneriaeth i gynyddu gwariant ymwelwyr yng Nghymru.<br><br>Mae'r strategaeth yn canolbwyntio ar 5 maes allweddol:<br><br>• Hyrwyddo'r Brand<br>• Datblygu cynnyrch<br>• Datblygu pobl<br>• Perfformiad proffidiol<br>• Meithrin lle.<br><br>Mae'r strategaeth yn disgrifio dull hyrwyddo ar sail cynnyrch ar gyfer twristiaeth yng Nghymru gan ganolbwyntio ar:<br><br>• mwy o westai moethus wedi'u brandio<br>• mwy o gyfleusterau llesiant, fel sbas<br>• mwy o westai treftadaeth sy'n defnyddio adeiladau hanesyddol ac unigryw<br>• atyniadau, gweithgareddau a phrofiadau diwylliannol sy'n agored drwy'r flwyddyn<br>• mwy o gynnyrch arloesol, anarferol ac unigryw.<br><br>Mae lleoliad marchnadoedd/rhanbarthau wedi'u nodi ac mae'r strategaeth hefyd yn ymdrech i adeiladu ar y sylfaen cwsmeriaid hwn.<br><br><br>**Ymateb y Cynllun Rheoli:** Cyfrannu at warchod a gwella'r hyn sy'n cael ei gynnig i dwristiaid ac i ymwelwyr a hamdden drwy gyflawni dibenion a dyletswydd y Parc Cenedlaethol. |
| Dringo'n Uwch. Strategaeth Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol, Llywodraeth Cymru 2015 (Strategaeth ar gyfer chwaraeon a gweithgarwch corfforol (Dringo'n Uwch) \| LLYW.CYMRU) |

| |
|---|
| **Nodiadau:** Mae Parciau Cenedlaethol yn parhau fel asedau pwysig i hyrwyddo iechyd a llesiant corfforol a meddyliol. 'Gellir edrych ar gefn gwlad fel adran cleifion allanol fawr nad yw eu gwerth therapiwtig wedi'i gwireddu'n llawn eto.' (Dr William Bird). Mae rheoli hamdden yn ffordd bwysig o gynyddu mwynhad a'r buddiannau cysylltiedig mewn ffordd gynaliadwy. Cael gwared ar rwystrau o bob math rhag cymryd rhan mewn gweithgarwch hamdden a mwynhau'r Parc Cenedlaethol.<br><br>**Ymateb y Cynllun Rheoli:** Cynyddu faint o bobl sy'n manteisio ar gyfleoedd hamdden priodol yn amodol ar unrhyw gyfyngiadau amgylcheddol, cymunedol, a defnyddwyr. |
| **Strategaeth Amgylcheddol ar gyfer Cymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru 2006** (Enquiry Blank (senedd.cymru)) |
| **Nodiadau:** Strategaeth dymor hir (20 mlynedd) ar gyfer amgylchedd Cymru. Mae'n nodi pum thema amgylcheddol allweddol: newid yn yr hinsawdd; defnydd cynaliadwy o adnoddau; bioamrywiaeth, tirweddau a morweddau; yr amgylchedd lleol; peryglon amgylcheddol. Diben y Strategaeth yw cynnig fframwaith i gyflawni amgylchedd sy'n lân, yn iach, yn fiolegol amrywiol ac sy'n cael ei werthfawrogi gan bobl Cymru. Mae'n cydnabod gwerth amgylchedd Cymru am yr hyn ydyw, yn ogystal â'i werth cymdeithasol ac economaidd. Ceir cyfeiriadau at ddatblygu a defnyddio adnoddau amgylcheddol, ond mewn ffordd gynaliadwy.<br><br>**Ymateb y Cynllun Rheoli:** Mae cysylltiad uniongyrchol rhwng y Strategaeth Amgylcheddol a dibenion a dyletswydd Parc Cenedlaethol, ac edrychwn ymlaen at barhau i gyfrannu at y prif nodau a'r camau gweithredu a gynhyrchir ganddo. |

| **Strategaeth Ddŵr Cymru, Llywodraeth Cymru 2015** ([Strategaeth ddŵr \| LLYW.CYMRU]) |
|---|
| **Crynodeb:** Mae Strategaeth Ddŵr Cymru'n disgrifio safbwynt polisi tymor hir (20 mlynedd) Llywodraeth Cymru i wella rheolaeth adnoddau dŵr yng Nghymru. Mae'r strategaeth yn ymdrin â dyfroedd aberol ac arfordirol yn ogystal â dŵr croyw mewndirol, ac mae wedi'i rhannu'n 6 phrif maes pwnc:<br><br>• **Dŵr ar gyfer natur, pobl a busnes** – rheoli adnoddau dŵr i ddiwallu anghenion, gwella/cynnal ansawdd dŵr a darparu cyfleoedd ar gyfer "twf gwyrdd".<br><br>• **Gwella sut yr ydym yn cynllunio ac yn rheoli ein gwasanaethau dŵr** – mae'n disgrifio sut y bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod y seilwaith dŵr yn gynaliadwy.<br><br>• **Darparu gwasanaethau rhagorol i gwsmeriaid** – Sicrhau gwasanaethau dŵr a charthffosiaeth fforddiadwy a dibynadwy.<br><br>• **Diogelu a gwella ansawdd dŵr yfed** – Sicrhau cydymffurfiaeth â'r gyfarwyddeb dŵr yfed a delio'n effeithiol â phroblemau ansawdd.<br><br>• **Systemau carthffosiaeth a draenio ar gyfer yr 21ain ganrif** – mae'n disgrifio dull Llywodraeth Cymru o reoli carthffosiaeth a dŵr wyneb yn integredig.<br><br>• **Cynorthwyo i gyflawni** – Mae'n nodi sut y caiff y canlyniadau allweddol eu cyflawni.<br><br>**Pwyntiau nodedig sydd wedi'u cynnwys:**<br><br>• Mae'r strategaeth yn cydnabod pwysigrwydd arfordir Cymru i'r economi a rôl ansawdd dŵr mewn hyrwyddo "twf glas".<br>• Taliadau am wasanaethau ecosystem sy'n helpu â rheolaeth dŵr<br>• Cymorth deddfwriaethol ar gyfer systemau cynaliadwy a charthffosiaeth<br><br>**Ymateb y Cynllun Datblygu Lleol**: Mae'n darparu'r fframwaith polisi i gefnogi'r strategaeth hon mewn cynigion datblygu. |

| |
|---|
| **Llwybr Newydd: strategaeth drafnidiaeth Cymru 2021** (Llwybr Newydd: strategaeth drafnidiaeth Cymru 2021 \| LLYW.CYMRU) |
| **Nodiadau:** Mae Llwybr Newydd: strategaeth drafnidiaeth Cymru 2021 yn ddogfen bolisi a strategaeth sy'n cyflwyno gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer dyfodol trafnidiaeth yng Nghymru. Nod y strategaeth yw annog pobl i ddefnyddio dulliau teithio cynaliadwy, gyda tharged o 45% o siwrneiau drwy ddulliau cynaliadwy ledled Cymru erbyn 2045. Mae'r ddogfen yn nodi uchelgais y llywodraeth am yr 20 mlynedd nesaf a'i blaenoriaethau am y 5 mlynedd nesaf.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu mwy na £210 miliwn ledled Cymru yn 2021/22 i helpu i gyflawni'r ymrwymiadau yn Llwybr Newydd. Dyrannwyd mwy na £115 miliwn i gynghorau i'w wario ar brosiectau trafnidiaeth a fydd yn helpu i gyflawni'r ymrwymiadau yn y strategaeth. |
| **Tuag at Ddyfodol Diwastraff – Strategaeth Wastraff i Gymru, Llywodraeth Cymru 2010** (Tuag at ddyfodol diwastraff: ein strategaeth wastraff \| LLYW.CYMRU) |
| **Nodiadau:** Mae'r strategaeth hon yn cyflawni fframwaith tymor hir i gyflawni dyfodol diwastraff yng Nghymru erbyn 2050, gyda nod trawsbynciol i weld gostyngiad o 1.5% o flwyddyn i flwyddyn mewn faint o wastraff a gynhyrchir gan bob sector.<br><br>**Ymateb y Cynllun Rheoli:** Ystyried egwyddorion y strategaeth ac ymdrechu i fanteisio i'r eithaf ar unrhyw gyfleoedd i gyfrannu at ei nodau a'i hamcanion pan yn briodol.<br>**Ymateb y Cynllun Datblygu Lleol:** Dylai polisïau alluogi datblygiadau sy'n cyfrannu at gyflawni'r targedau a bennwyd yn Tuag at Ddyfodol Diwastraff. |

| |
|---|
| **Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned, Cynllun Datblygu Cynaliadwy newydd i Gymru, Llywodraeth Cymru 2009** (http://wales.gov.uk/topics/sustainabledevelopment/publications/onewalesoneplanet/?lang=en) |
| **Nodiadau:** Mae'n cyflwyno gweledigaeth Llywodraeth Cymru o Gymru gynaliadwy, a'r egwyddorion i gyflawni'r weledigaeth. Mae datblygu cynaliadwy'n elfen graidd o ddibenion a dyletswydd y Parc Cenedlaethol.<br><br>**Ymateb y Cynllun Rheoli:** Parhau i weithio ar y nodau i reoli adnoddau'n gynaliadwy, sy'n ofynnol i ategu pob agwedd ar lesiant pobl yn awr ac yn y dyfodol. |
| **Ar Draws Ffiniau – Adolygu Cyflenwi Gwasanaethau Lleol (Adolygiad Beecham), Llywodraeth Cymru 2006** (Beyond Boundaries: Citizen-Centred Local Services for Wales 6 - DocsLib) |
| **Nodiadau:** Adroddiad ar adolygiad a oedd yn edrych ar yr holl wasanaethau cyhoeddus lleol yng Nghymru, rhai wedi a heb eu datganoli, i weld sut y gellid gwneud eu cyflenwi'n fwy effeithiol ac ymatebol i anghenion dinasyddion yn yr 21ain ganrif. Roedd argymhellion yr adolygiad yn cynnwys: lleihau biwrocratiaeth, symleiddio trefniadau grantiau, llai o arolygu a rheoleiddio, a chanolbwyntio ar ganlyniadau nid prosesau; mwy o gydweithio, dim ad-drefnu mawr ar strwythurau; parodrwydd i fabwysiadu economi gymysg o ddarpariaeth gan gynnwys y sectorau cyhoeddus, preifat ac nid er elw; mwy o rôl i graffu yn y Cynulliad a llywodraeth leol, cynnwys defnyddwyr gwasanaeth ac eiriolwyr; a mwy o fuddsoddi i wella capasiti a sgiliau i gyflenwi gwasanaethau.<br><br>**Ymateb y Cynllun Rheoli:** Mae Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol yn mabwysiadu dull sy'n seiliedig ar ganlyniadau. Gall yr Adolygiad hefyd helpu gweithio mewn partneriaeth o dan Adran ii) o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 – dywed yr adran hefyd y dylai sefydliadau roi sylw i ddibenion Parciau Cenedlaethol wrth gyflawni eu busnes eu hunain. |
| **Glas Tir – Cyfoeth Naturiol Cymru 2012** |
| **Cofrestr o Dirweddau, Parciau a Gerddi o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig yng Nghymru, CADW a CCGC** (http://cadw.wales.gov.uk/historicenvironment/protection/historiclandscapes/;jsessionid=2CE4546A3CAF1AFEA516A6884FFA49B6?lang=en) |
| **Nodiadau:** Nodir mannau o ddiddordeb hanesyddol sy'n gyfan gwbl neu'n rhannol o fewn y Parc Cenedlaethol a'r nodweddion o bwys. Mae synergeddau allweddol rhwng rheolaeth APCAP o adnoddau archeolegol a hanesyddol, ond hefyd cysylltiadau hanfodol â pholisïau rheoli eraill.<br><br>**Ymateb y Cynllun Rheoli:** Cyfrannu at Reoli mannau cadwraeth a nodweddion a enwir yn y gofrestr. |
| **Rhestr Adran 42: Cynefinoedd a rhywogaethau pwysig iawn ar gyfer cadwraeth yng Nghymru, CCGC/ Llywodraeth Cymru 2007** (http://www.ccgc.gov.uk/landscape--wildlife/habitats--species/priority-species.aspx) |

| |
|---|
| **Coedwigoedd i Gymru, Y Comisiwn Coedwigaeth 2009** (Coetiroedd i Gymru: strategaeth \| LLYW.CYMRU) |
| **Cartrefi i Gymru – Papur Gwyn ar gyfer Bywydau Gwell a Chymunedau Gwell (Mai 2012)** (http://wales.gov.uk/consultations/housingcommunity/housewhitepaper/?lang=en) (Papur Gwyn ar gyfer Bywydau Gwella Chymunedau Gwell \| LLYW.CYMRU) |
| **Cynllun Datblygu Gwledig 2014-2020: Y Camau Nesaf, Llywodraeth Cymru 2013** (http://wales.gov.uk/consultations/environmentandcountryside/rdp-2014-2020-next-steps-consultation/?lang=en) (Dogfen Rhaglen Datblygu Gwledig 2014 i 2020 \| LLYW.CYMRU) |
| **Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015** (http://www.legislation.gov.uk/wsi/2015/996/schedule/1/made) |
| Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 wedi sefydlu fframwaith cyfreithiol i osod dyletswydd ar rai sefydliadau i gydymffurfio ag un neu ragor o safonau ymddygiad wrth gyflenwi eu gwasanaethau drwy'r Gymraeg, gan gynnwys meysydd fel llunio polisïau, gweithgarwch gweithredol y sefydliad a hyrwyddo'r Gymraeg.<br><br>Roedd Adran 26 o'r Mesur yn caniatáu i Weinidogion Cymru bennu safonau o'r fath, ac mae'r rhain wedi'u cyflwyno o dan Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015. Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys yn unig i Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, Cynghorau Sir a Bwrdeistref Sirol a Gweinidogion Cymru. Ar ôl eu cyhoeddi, cyhoeddodd Comisiynydd y Gymraeg, o dan Adran 44 o'r Mesur, Hysbysiad Cydymffurfio ar 30 Medi 2015 i bob sefydliad perthnasol, sy'n nodi pa safonau y dylent gydymffurfio â hwy.<br><br>O ran llunio polisïau mae'r Hysbysiad cydymffurfio'n rhoi gofyniad ar yr Awdurdod i ystyried sut y gellid llunio polisi newydd (neu sut y gellid newid polisi presennol) fel y byddai'r penderfyniad polisi naill ai:<br>• yn cael effaith bositif, neu effaith fwy positif, neu<br>• na fyddai'n cael effaith andwyol, neu a fyddai'n cael effaith llai andwyol, ar y Gymraeg. Dylai'r penderfyniad polisi hefyd sicrhau nad yw'n trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. |
| **Cyngor i awdurdodau cynllunio ar gyfer ceisiadau cynllunio sy'n effeithio ar afonydd mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig sy'n sensitif i ffosfforws, Cyfoeth Naturiol Cymru (2023)** |
| Set o ganllawiau sydd ar gael ar-lein gan Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n cyflwyno safbwyntiau Cyfoeth Naturiol Cymru yn achos cadwraeth natur, ac effeithiau datblygiadau arfaethedig lle mae angen caniatâd cynllunio mewn ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACAau) sy'n sensitif i ffosfforws. Mae'r dudalen ar y we'n cynnwys cwestiynau cyffredin sy'n:<br>1. Disgrifio mater ffosfforws mewn cyrsiau dŵr<br>2. Nodi'r gofyniad i ymgynghori o dan y rheoliadau cynefinoedd. |

| |
|---|
| 3. Rhoi cyngor ar ddatblygiadau cysylltiedig cyffredin<br>4. Rhoi cyngor ar ddatblygu Cynlluniau Datblygu Lleol |
| **Gwerthfawr a Gwydn: Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer yr Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a Pharciau Cenedlaethol, Llywodraeth Cymru, Gorffennaf 2018**<br>Gwerthfawr a Gwydn: Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a Pharciau Cenedlaethol |
| Yn amlinellu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) a Pharciau Cenedlaethol yng Nghymru. Dyma'r nodau allweddol:<br>1. Lleoedd Gwerthfawr:<br>• Ymgysylltu â chynulleidfaoedd amrywiol y tu hwnt i randdeiliaid traddodiadol.<br>• Meithrin ymdeimlad o berchnogaeth a chysylltiad â'r tirweddau cenedlaethol hyn.<br>2. Amgylcheddau Gwydn:<br>• Rheolaeth gynaliadwy o adnoddau naturiol.<br>• Cadwraeth bioamrywiaeth.<br>• Ynni gwyrdd a datgarboneiddio.<br>3. Cymunedau Gwydn:<br>• Gwireddu potensial economaidd.<br>• Hyrwyddo twristiaeth a hamdden awyr agored.<br>• Cefnogi'r Gymraeg.<br>4. Ffyrdd Gwydn o Weithio:<br>• Cydweithio ar draws tirweddau.<br>• o Arloesi wrth ddyrannu adnoddau. |
| **Polisi Adnoddau Naturiol, Llywodraeth Cymru, 2017**<br>Y polisi adnoddau naturiol cenedlaethol \| LLYW.CYMRU |
| Yn amlinellu blaenoriaethau ar gyfer rheoli adnoddau naturiol Cymru yn gynaliadwy. Mae'n canolbwyntio ar dir, môr ac aer, gan anelu at wella ffyniant tra'n gwella'r amgylchedd. Mae'r pwyntiau allweddol yn cynnwys:<br>1. Amcanion Economaidd ac Amgylcheddol: Mae'r NRP yn pwysleisio bod buddsoddi mewn adnoddau naturiol yn gost-effeithiol ac yn hanfodol i ffyniant Cymru. Mae'n integreiddio nodau economaidd ac amgylcheddol.<br>2. Sectorau a Chyfleoedd: Mae diwydiannau fel ffermio, coedwigaeth, pysgodfeydd, ynni a dŵr yn defnyddio adnoddau naturiol yn uniongyrchol. Mae'r NRP yn nodi cyfleoedd i wella cadwyni gwerth a manteisio ar farchnadoedd sy'n tyfu, megis ynni adnewyddadwy a charbon. |

| |
|---|
| 3. Ystyriaethau Brexit: O ystyried y fframwaith sydd wedi'i integreiddio â'r UE ar gyfer rheoleiddio adnoddau naturiol, mae Brexit yn peri heriau.<br><br>Nod yr NRP yw cefnogi sectorau allweddol trwy wella gallu prosesu, cynnal safonau ansawdd, a mwy |

**Rhanbarthol:**

| **Datganiad Ardal De Orllewin Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, (ar waith)**<br>**(**Cyfoeth Naturiol Cymru / Thema drawsbynciol: lliniaru ac addasu i hinsawdd sy'n newid) |
|---|
| Mae Datganiadau Ardal De Orllewin Cymru'n cynnwys ardal Awdurdodau Lleol Abertawe, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin. Mae'n nodi'r prif risgiau, y cyfleoedd a blaenoriaethau ar gyfer adeiladu cydnerthedd ecosystemau a rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy o dan bedwar maes allweddol:<br><br>1. Lleihau anghydraddoldebau iechyd<br>2. Sicrhau rheoli tir yn gynaliadwy<br>3. Gwyrdro'r dirywiad mewn, a chyfoethogi bioamrywiaeth<br>4. Lliniaru ac addasu i effeithiau newid yn yr hinsawdd<br><br>Mae pob adran wedi'i hategu gan dystiolaeth a gyflwynir ar Borth Gwybodaeth Amgylcheddol Cymru. |
| **Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion, Cyngor Sir Ceredigion 2013 (Mabwysiadwyd)**<br>**(**Cynllun Datblygu Lleol Cyfredol Ceredigion - Cyngor Sir Ceredigion ) |
| **Cynllun Datblygu Lleol Newydd Ceredigion (CDLl 2 2018 - 2033) Y Strategaeth a Ffefrir, Cyngor Sir Ceredigion**<br>(https://www.ceredigion.gov.uk/preswyliwr/cynllunio-rheoli-adeiladu/cynllunio-a-rheoli-adeiladu/cynllun-datblygu-lleol/cynllun-datblygu-lleol-newydd/strategaeth-a-ffafrir/) |
| **Cynllun Datblygu Lleol Sir Gaerfyrddin, Cyngor Sir Caerfyrddin 2014 (Mabwysiadwyd)**<br>(Cynllun Datblygu Lleol 2006 - 2021 (LLYW.CYMRU)) |
| **Cynllun Datblygu Lleol Sir Gaerfyrddin 2018 – 2033 Diwygiedig Ailadneuo**<br>(https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/gwasanaethaur-cyngor/cynllunio/cynllun-datblygu-lleol-2018-2033/cynllun-datblygu-lleol-diwygiedig-ail-adneuo/ ) |
| **Cynlluniau Rheoli Traethlin Sir Benfro a Bae Caerfyrddin**<br>(http://www.pembrokeshire.gov.uk/content.asp?id=6553&d1=0) |

| **Cynllun Rheoli Basn Afon Gorllewin Cymru 2015-2021, Cyfoeth Naturiol Cymru (2015)**<br>Western Wales River Basin Management Plan Summary (naturalresources.wales) |
| --- |
| Roedd **Cynllun Rheoli Basn Afon Gorllewin Cymru (2015-2021)** yn strategaeth gynhwysfawr gyda'r nod o ddiogelu a gwella'r amgylchedd dŵr yn y rhanbarth hwn. Dyma rai o brif bwyntiau'r cynllun hwnnw:<br>1. **Cwmpas a Diben**:<br>• Roedd y cynllun yn cynnwys afonydd, llynnoedd, gwlyptiroedd, dyfroedd daear, aberoedd, a dyfroedd arfordirol ar draws Gorllewin Cymru.<br>• Ei brif nod oedd gwella ansawdd dŵr, gwarchod cynefinoedd, a rheoli perygl llifogydd.<br>• Datblygwyd y cynllun drwy ymgynghori ag amrywiaeth o sefydliadau ac unigolion.<br>2. **Amcanion a Mesurau**:<br>• Roedd y cynllun yn disgrifio amcanion amgylcheddol penodol, gan gynnwys cynnal neu wella statws cyrff dŵr.<br>• Cynigiwyd mesurau i fynd i'r afael â heriau fel llygredd, diraddiad cynefinoedd, a rheoli llifogydd.<br>• Nod y mesurau hyn oedd gwella iechyd cyffredinol yr amgylchedd dŵr.<br>3. **Crynodebau dalgylchoedd:**<br>• Roedd y cynllun yn cynnwys crynodeb dalgylchoedd ar gyfer ardaloedd yng Ngorllewin Cymru, gan gynnig canllawiau ymarferol ar gyfer gweithredu'n lleol.<br>• Roedd y crynodebau hyn yn cynnwys dalgylchoedd fel afonydd **Teifi**, **Tawe**, **Cleddau**, ac eraill.<br>• Roedd gan bob dalgylch nodweddion unigryw a heriau penodol.<br>4. **Monitro a Chynnydd**:<br>• Roedd monitro rheolaidd yn asesu cynnydd tuag at gyflawni amcanion y cynllun.<br>• Roedd partneriaethau ar waith â chymunedau lleol, asiantaethau'r llywodraeth, a rhanddeiliaid i'w weithredu'n llwyddiannus.<br>• Cafodd y cynllun ei adolygu o bryd i'w gilydd a'i ddiweddaru i addasu i dystiolaeth newydd a materion a oedd yn dod i'r amlwg. |
| **Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd Cyfoeth Naturiol Cymru: Lle De Orllewin Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru (2023 – 2029)**<br>**(**Cyfoeth Naturiol Cymru /cynllun rheoli perygl llifogydd 2023 i 2029) |

Mae Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd Lle De Orllewin Cymru (FRMP) yn disgrifio strategaethau i reoli perygl llifogydd mewn mannau allweddol ledled Cymru rhwng 2023 a 2029.

1. Cwmpas a Diben:
- Mae'r FRMP yn cynnwys Cymru gyfan ac mae'n rhoi sylw i lifogydd o afonydd, cronfeydd dŵr, a'r môr.
- Mae'n cynnwys gwybodaeth am raddau'r perygl llifogydd ac yn nodi blaenoriaethau i reoli llifogydd.
2. Camau Gweithredu a Mesurau:
- Mae'r cynllun yn cynnig camau i liniaru perygl llifogydd ar lefelau cenedlaethol a lleol.
- Mae'n ystyried addasu a lliniaru ar gyfer newid yn yr hinsawdd.

**Lleol:**

| |
|---|
| **Cynllun Datblygu Lleol 2 Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (2020) (**Cynllun Datblygu Lleol 2 - Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro) |
| **Cynllun Datblygu Cyngor Sir Penfro Lleol, Cyngor Sir Penfro 2013 (Mabwysiadwyd)** (Cynllun Datblygu Lleol a Fabwysiadwyd - Cyngor Sir Penfro) |
| **Cynllun Llesiant Sir Benfro (2023)** **(**Cynllun Llesiant Sir Benfro - Cyngor Sir Penfro) |
| Mae gofyniad yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ar Fyrddau Gwasanaeth Lleol i gynhyrchu Cynllun Llesiant, sy'n disgrifio sut y bydd yn gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, economaidd a diwylliannol eu hardal. Mae'r broses o ddatblygu Cynllun Llesiant yn dechrau gydag Asesiad Llesiant i gasglu data gwaelodlin ac i ddeall y problemau, a bydd y broses hon wedyn yn llywio datblygiad yr Amcanion Llesiant.<br><br>Mae gan Gynllun Llesiant Drafft Sir Benfro ddau amcan ar gyfer llesiant ac mae gan bob un ddwy ffrwd waith cysylltiedig, a'r rhain yw:<br><br>• Pwy Ydym ni<br>  ▪ Byw a Gweithio – galluogi cyfleoedd addysg a chyflogaeth a denu talent i'r sir<br>  ▪ Cymunedau Dyfeisgar – cymunedau sy'n cynnal eu hunain a gwirfoddoli<br>• Lle'r Ydym yn Byw<br>  ▪ Mynd i'r Afael â Natur Wledig – rhoi sylw i'r anghydraddoldebau y mae natur wledig yn gallu eu hachosi<br>  ▪ Gwarchod ein Hamgylchedd – y gallu i wrthsefyll newid yn yr hinsawdd<br><br>Mae pob un o'r ffrydiau gwaith hyn yn cynnwys camau gweithredu ar gyfer y tymhorau byr, canolig a hir ac mae'r cynllun yn cael ei ategu gan yr egwyddorion arweiniol canlynol:<br><br>• Gwrando – bydd llais pob unigolyn, cymuned a sefydliad yn cael eu clywed<br>• Dealltwriaeth – drwy ymgysylltu parhaus ac edrych ar yr hyn sy'n bwysig, byddwn yn ymdrechu i ddeall llesiant yn Sir Benfro.<br>• Newid – mae'r Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus wedi ymrwymo i gydweithio ac arloesi er mwyn ychwanegu gwerth at lesiant cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol. |

| |
|---|
| **Cynllun Rheoli Hamdden 5 Mlynedd Aberdaugleddau, Porthladd Aberdaugleddau 2021** (https://www.mhpa.co.uk/media/nm1ffwk1/recreation-management-plan-2021.pdf) (Layout 1 (walesactivitymapping.org.uk)) |
| Mae "**Cynllun Rheoli Hamdden 5 Mlynedd Aberdaugleddau"** yn gynllun 5 mlynedd i wella cyfleoedd hamdden o fewn Dyfrffordd Aberdaugleddau. Mae'r dull cydweithredol hwn yn cynnwys cynllunio, monitro a rheoli cyfleoedd hamdden Aberdaugleddau. Mae'r cynllun yn cynnwys canllawiau clir ar sut mae porthladd Aberdaugleddau cynorthwyo ymwelwyr sy'n cyrraedd ar ddŵr drwy gydol y flwyddyn.<br><br>Mae agweddau allweddol y cynllun yn cynnwys:<br><br>1. Gwella'r Gallu Peilotiaeth: Nod MHPA yw ehangu ei wasanaethau peilotiaeth sydd o safon ryngwladol.<br>2. Datblygu Aberdaugleddau fel Cyrchfan. Y nod yw sefydlu Aberdaugleddau fel lle poblogaeth i fyw, ymweld, chwarae a mwynhau.<br>3. Hyb Ynni Adnewyddadwy: Mae MHPA am ddatblygu gweithrediadau amlbwrpas presennol y porthladd a sefydlu Porthladd Penfro fel un o brif hybiau ynni adnewyddadwy'r DU.<br>4. Cam Cynnar y Cynnig Lletygarwch: Mae cynlluniau ar waith i greu cynnig lletygarwch cam cynnar.<br><br>Mae'r cynllun yn dangos y camau sy'n cael eu cymryd gan MHPA a'i bartneriaid i sicrhau bod cyfleusterau hamdden priodol ar gael i'r sawl am fwynhau'r Haven3. |
| **Cynllun Gweithredu Lleol ar Fioamrywiaeth Sir Benfro, Partneriaeth Bioamrywiaeth Sir Benfro** (Cynlluniau a Chanllawiau - Cyngor Sir Penfro) |
| **Nodiadau:** Cynllun Gweithredu Lleol ar Fioamrywiaeth Sir Benfro (LBAP) yw'r prif gyfrwng a fydd yn galluogi Awdurdod y Parc Cenedlaethol i gyfrannu at UKBAP sy'n deillio o'r Confensiwn ar Gadwraeth Amrywiaeth Fiolegol. Mae'r gwaith cynllunio a gweithredu'n cael ei gydlynu gan Bartneriaeth Bioamrywiaeth Sir Benfro, grŵp o 14 o sefydliadau sy'n cynnwys Awdurdod y Parc Cenedlaethol, a bydd integreiddio'r LBAP yn llawn yn parhau gyda rhannau perthnasol Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol. Mae'r LBAP yn fodd pwysig i 'gydlynu' gwaith cadwraeth a galluogi partneriaid i gymryd golwg ehangach o'r mesurau cadwraeth sydd eu hangen. Dylanwadu rheolwyr safleoedd nad ydynt yn eiddo i bartneriaid a sicrhau cyllid ar gyfer prosiectau ychwanegol. |

| |
|---|
| **Ymateb y Cynllun Rheoli:** Parhau i ddefnyddio'r Cynllun Gweithredu Lleol ar Fioamrywiaeth, y broses, a gwasanaethau Canolfan Wybodaeth Bioamrywiaeth Gorllewin Cymru, i integreiddio o fewn y Parc Cenedlaethol, a rhyngddo â'r sir yn gyffredinol. |
| **Cynllun Gweithredu ar Adfer Natur Sir Benfro: Ein Strategaeth ar gyfer Adfer Natur, Partneriaeth Natur Sir Benfro (2018)**<br>**(**Cynlluniau a Chanllawiau - Cyngor Sir Penfro) |
| Mae Cynllun Gweithredu ar Adfer Natur Sir Benfro yn amlygu'r prif bwysau sydd ar natur yn y sir ac mae'n cyfarwyddo aelodau Partneriaeth Natur Sir Benfro ac yn awgrymu camau y gellir eu cymryd i fynd i'r afael â'r pwysau rheini mewn cyd-destun deddfwriaethol. Bwriedir iddo arwain at greu syniadau, sgyrsiau uniongyrchol a bod yn gyfrwng ar gyfer prosiectau a gweithredu lleol.<br><br>Mae themâu y gellir gweithredu arnynt wedi'u nodi o dan chwe amcan strategol:<br><br>1. Ymgysylltu a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth i ymgorffori bioamrywiaeth mewn prosesau penderfynu ar bob lefel.<br>2. Diogelu rhywogaethau a chynefinoedd pwysig iawn a gwella sut maent yn cael eu rheoli.<br>3. Cynyddu cydnerthedd ein hamgylchedd naturiol drwy adfer cynefinoedd sydd wedi'u diraddio a chreu cynefinoedd<br>4. Mynd i'r afael â'r pwysau mwyaf ar rywogaethau a chynefinoedd<br>5. Gwella ein tystiolaeth, ein dealltwriaeth a monitro<br>6. Rhoi fframwaith llywodraethu ar waith a helpu i'w gyflawni<br><br>**Ymateb y Cynllun Rheoli:** Fel aelodau Partneriaeth Adfer Natur Sir Benfro, bydd y strategaeth hon yn cael ei hystyried o fewn datblygiad polisi Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol. |
| **"Progress in Partnership" RTP Consortiwm Trafnidiaeth Integredig De Orllewin Cymru, (SWWITCH)**<br>(http://www.swwitch.net/rtp.aspx) |
| **Nodiadau:** Mae'r RTP yn disodli Cynlluniau Trafnidiaeth Lleol sirol. Y weledigaeth ar gyfer De Orllewin Cymru yw 'gwella trafnidiaeth a mynediad o fewn a thu hwnt i'r rhanbarth i hwyluso datblygu economaidd a datblygu a defnyddio dulliau trafnidiaeth mwy cynaliadwy ac iach'.<br><br>Mae'r RTP yn cyd-fynd â'r strategaeth genedlaethol (uchod), sy'n edrych ar borthladdoedd Aberdaugleddau, Penfro ac Abergwaun fel 'pyrth allweddol i mewn ac allan o Gymru'. |

| |
|---|
| Mae'r cysyniad 'rhwydwaith o drefi' hefyd yn rhaeadru i lawr i'r rhanbarth o'r strategaeth genedlaethol; mae hyn yn golygu bod trefi Dyfrffordd Aberdaugleddau (Aberdaugleddau, Penfro/Doc Penfro a Hwlffordd) yn cynnal ei gilydd drwy gynnig swyddogaethau cyflenwol a bod cysylltiadau gwell rhyngddynt. Mae'r Strategaeth yn nodi canlyniadau i ddylanwadu ar arferion teithio, a fydd yn arwain at effeithiau buddiol i bawb. |
| **Strategaeth Lonydd Glas Sir Benfro, Partneriaeth Lonydd Glas** (http://www.pembrokeshiregreenways.co.uk/) |
| **Asesiad o'r Farchnad Dai Leol yn Sir Benfro 2024-2029, Cyngor Sir Penfro 2007** (Agenda'r Cyngor Dydd Iau, 14 Rhagfyr, 2023, 10.00a.m. - Cyngor Sir Penfro) |
| **Nodiadau:** Mae'r strategaeth hon yn disgrifio'r hyn y bydd Cyngor Sir Penfro a phartneriaid yn ei wneud yn ystod pum mlynedd y strategaeth i fynd i'r afael â phrif broblemau tai'r sir gan gynnwys: diffyg tai fforddiadwy, digartrefedd a darparu tai i bobl agored i niwed.<br><br>**Ymateb y Cynllun Rheoli:** I'w gadarnhau |
| |
| |
| **Cynllun Rheoli Basn Afon Gorllewin Cymru 2021 – 2027** (Cynllun Rheoli Basn Afon Gorllewin Cymru 2021-2027 Crynodeb) |
| Mae'r Cynllun Rheoli Basn Afon ar gyfer Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru yn cael ei baratoi o dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr. Mae'n disgrifio cyflwr presennol ardal y basn afon a'r hyn a gyflawnwyd ers 2009; manylion y Rhaglen o Fesurau i wella'r amgylchedd dŵr erbyn 2027, cyflwyno'r amcanion cyrff dŵr ac edrych ymlaen at yr adolygiad arfaethedig yn 2027.<br><br>**Ymateb y Cynllun Rheoli**: gweithredu drwy ymatebion i newid yn yr hinsawdd. |
| **Strategaeth Trwyddedu Tynnu Dŵr Dalgylchoedd Afon Cleddau ac Afonydd Arfordirol Sir Benfro (CAMS), Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru** (Strategaeth Trwyddedu Tynnu Dŵr Dalgylchoedd Afon Cleddau ac Afonydd Arfordirol Sir Benfro (Cyfoeth Naturiol Cymru)) |

**Nodiadau:** Mae'r **Strategaeth Trwyddedu Tynnu Dŵr Dalgylchoedd** (CAMS) yn ffordd o gynnwys y cyhoedd, asesu adnoddau dŵr, dyrannu trwyddedau tynnu dŵr a hwyluso masnachu mewn trwyddedau. Mae'r CPCR CAMS drafft yn datgan bod gan DCWW ddigon o ddŵr i ddiwallu'r galw am ddŵr yn ardal Sir Benfro am y 25 mlynedd nesaf. Bydd y CDLl yn cysylltu'n agos â'r CAMS i sicrhau ei fod yn rhoi sylw i anghenion datblygu mewn diwygiadau a wneir yn y dyfodol i'w gynllun adnoddau dŵr ac i'r gwrthwyneb. Rhyngweithio rhwng y cyflenwad a'r galw am ddŵr yn y dyfodol, yn enwedig yng nghyd-destun newid yn yr hinsawdd, ac ystyriaethau ansawdd dŵr ac ecolegol cysylltiedig (e.e. sy'n deillio o lifoedd isel). Mae llawer o Orllewin Cymru wedi'i heithrio o drwyddedu dŵr daear. Cafodd CAMS 2006 ei ddiweddaru yn 2009.

**Ymateb y Cynllun Rheoli:** Cyfrannu at reoli cyfraddau llif cyrsiau dŵr a lefelau dŵr daear yn unol â'r CAMS.

**Fframwaith ar gyfer Rheolaeth Integredig ar Barthau Arfordirol yn Sir Benfro, Rhwydwaith Arfordirol a Morol Sir Benfro 2006**
(http://www.pembrokeshirecoastalforum.org.uk/wp-content/uploads/2011/05/Coastal-Zone-Management-in-Pembrokeshire.pdf)

**Crynodeb Rheoli Dalgylch Afon Cleddau ac Afonydd Arfordirol Sir Benfro (2015 – 2021), Cyfoeth Naturiol Cymru**
Cyfoeth Naturiol Cymru / Cynlluniau rheoli basn afon 2015-2021

Mae'r crynodeb hwn yn ategu Cynllun Rheoli Basn Afon Gorllewin Cymru.

Mae Crynodeb Rheoli Dalgylch Afon Cleddau ac Afonydd Arfordirol Sir Benfro (2015 – 2021) yn disgrifio'r heriau a'r amcanion ar gyfer Afonydd Cleddau a Sir Benfro, sy'n cynnwys afonydd Cleddau Ddu, Cleddau Wen, Dyfrffordd Aberdaugleddau (yr 'Haven'), ac afonydd llai fel afonydd Nyfer, Gwaun, Solfach, a Ritec.

Mae manylion am statws ansawdd y dŵr a'r heriau presennol yn y dalgylch wedi'u cynnwys. Yn achos y dalgylch hwn, y prif heriau yw llygredd, hydradu a pherygl llifogydd. Mae set fanwl o fesurau wedi'i chynnwys ond mae'r amcanion cyffredinol fel a ganlyn:

- Atal dirywiad mewn statws. Ni chaniateir i statws cyrff dŵr ddirywio o'i gymharu â'r statws presennol a adroddwyd.
- Cyflawni'r amcanion ar gyfer ardaloedd gwarchodedig. Cyflawni'r safonau a nodir yn y gyfarwyddeb berthnasol y maent wedi'u dynodi oddi tani. Ar gyfer safleoedd Natura 2000 sy'n ddibynnol ar ddŵr byddwn yn ymdrechu i

gyflawni amcanion cadwraeth, ac mae cyflawni statws da erbyn 2021 yn garreg filltir tuag at gyflawni’r amcan hwn.

- Ymdrechu i gyflawni statws da cyffredinol ar gyfer dyfroedd wyneb a dŵr. Gweithredu mesurau i gyflawni statws da’n gyffredinol os ydynt yn ymarferol yn dechnegol a heb fod yn rhy gostus o ystyried natur y gwaith.

Crynodeb Rheoli Dalgylch Afonydd Teifi a Gogledd Ceredigion, Cyfoeth Naturiol Cymru (2015-2021)
Cyfoeth Naturiol Cymru / Cynlluniau rheoli basn afon 2015-2021

Mae’r crynodeb hwn yn ategu Cynllun Rheoli Basn Afon Gorllewin Cymru.

Mae Crynodeb hwn yn disgrifio’r heriau a’r amcanion ar gyfer Dalgylch Afonydd Teifi a Gogledd Ceredigion, sy’n cynnwys afonydd Rheidol, Ystwyth, Clarach, Aeron, a Theifi.

Mae manylion am statws ansawdd y dŵr a’r heriau presennol yn y dalgylch wedi’u cynnwys. Yn achos y dalgylch hwn, y prif heriau yw llygredd, hydradu a pherygl llifogydd. Mae set fanwl o fesurau wedi’i chynnwys ond mae’r amcanion cyffredinol fel a ganlyn:

- Atal dirywiad mewn statws. Ni chaniateir i statws cyrff dŵr ddirywio o’i gymharu â’r statws presennol a adroddwyd.
- Cyflawni’r amcanion ar gyfer ardaloedd gwarchodedig. Cyflawni’r safonau a nodir yn y gyfarwyddeb berthnasol y maent wedi’u dynodi oddi tani. Ar gyfer safleoedd Natura 2000 sy’n ddibynnol ar ddŵr byddwn yn ymdrechu i gyflawni amcanion cadwraeth, ac mae cyflawni statws da erbyn 2021 yn garreg filltir tuag at gyflawni’r amcan hwn.
- Ymdrechu i gyflawni statws da cyffredinol ar gyfer dyfroedd wyneb a dŵr. Gweithredu mesurau i gyflawni statws da’n gyffredinol os ydynt yn ymarferol yn dechnegol a heb fod yn rhy gostus o ystyried natur y gwaith.